

ECO'R WYDDFA

Rhif 167

MAWRTH 1991

Pris 25c.

YSGOL BRYNREFAIL YN CROESAWU'R FFRANCWYR



Ers misoedd bellach mae Mrs Sylvie Jones, pennaeth adran Ffrangeg yr ysgol wedi bod yn trefnu taith gyfnewid rhwng disgyblion ysgolion Jean, Monnet, Versailles a phlant ysgolion Brynrefail, David Hughes, Friars a Tryfan.

Cyrhaeddodd y Ffrancwyr yr ardal ar Sadwrn, 16 Chwefror, ac maent yn lletya yng nghartrefi rhai o'n disgyblion sy'n astudio Ffrangeg. Mae'r Ffrancwyr yn manteisio ar y cyfle i brofi'r gwahaniaeth rhwng bywyd ysgol uwchradd yng Nghymru â'u hysgolion hwy yn Ffrainc. Maent yn mynychu'r ysgol a'r gwersi gyda'u ffrindiau newydd

Cymraeg am gyfnod o fis. Bydd y disgyblion Ffrengig hefyd yn cael ychydig o ddyddiau o brofiad gwaith yn ystod y mis y byddant yn aros yn yr ardal a hynny yn Leo's, Manweb, Currys a'r Cyngor Sir.

Ar ddiwedd y cyfnod o fis fe fydd pump o ddisgyblion yr ysgol sy'n astudio Lefel A Ffrangeg yn dychwelyd gyda'r Ffrancwyr i Versailles. Yno byddant hwy yn treulio mis yn yr ysgol ac yn cael profiad gwaith arbennig iawn yn Ffrainc. Dymunwn y gorau i'r Ffrancwyr yn ystod eu harosiad yma, ac i'n disgyblion pan fyddant yn dychwelyd gyda hwy i Ffrainc.

SEINDORF YN LLWYDDO ETO



Aelodau ieuaic o Seindorf Deiniolen yn wên o glust i glust. A pha ryfedd a llwyddiant arall wedi dod i'w rhan. Llongyfarchiadau iddynt ar wneud mor arbennig o dda ym mhencampwriaeth unawdau, deuawdau a phedwarawdau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ar 16 Chwefror. Cipiwyd Tarian Cei Cona am yr ail flwyddyn yn olynol gan y Seindorf am ennill y nifer mwyaf o bwyntiau. Enillwyd pedair gwobr gyntaf; pedair ail wob; tri trydydd ac un pedwerydd. Canlyniadau llawn ar dudalen nesaf.

AIL DRWY GYMRU



Iwan Griffiths o Lanrug yn falch o ddangos y fedal arian a enillodd yng Nghystadleuaeth Gymnasteg i ganolfannau hamdden Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Roedd yn cynrychioli Canolfan Arfon. Llongyfarchiadau iddo ar ennill yr ail safle yn y cystadlaethau unigol.

GWEITHGARWCH ANTUR PADARN



Selyf Roberts yn llongyfarch Owain Roberts ac Adrian Evans ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth cynllunio'r logo. Nid oedd Ellis Lloyd yn bresennol pan dynnwyd y llun.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar ddechrau'r mis mae y gwaith o ddosbarthu'r holiadur o gwmpas y gwahanol bentrefi wedi bod yn mynd ymlaen ac mae'r ymateb wedi bod yn arbennig o dda. Bellach mae dros hanner y pentrefi ar y rhestr wedi dychwelyd eu ffurflenni, ac o fewn yr wythnosau nesaf disgwylir y bydd yr holiadur wedi ei ddosbarthu a'i gasglu ymhob un o bentrefi y Dyffryn. Dylid nodi mai un tŷ o bob tri sydd yn cael ymweliad ar gyfer llenwi'r holiadur.

Yn ystod noson lansio'r holiadur, fe gyhoeddwyd enwau enillwyr y Gystadleuaeth Logo. Adrian Evans, Ysgol Brynrefail, oedd y buddugol gyda Ellis Lloyd, Ysgol Waunfawr, yn ail ac Owain Roberts, Ysgol Llanberis, yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r tri a diolch i Mr Selyf Morgan, Cwm y Glo, am drefnu'r gystadleuaeth. Gobeithir yn awr

cael cydweithrediad cynllunydd proffesiynol ar gyfer llunio logo terfynol o'r tri gwahanol gynllun a luniwyd gan fuddugwyr y gystadleuaeth. Efallai y gallwn gynnwys llun o'r logo gorffenedig yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Antur am 7 o'r gloch yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, nos Fercher, 6 Mawrth.

EIN DIOLCH I DRIGOLION CAEATHRO A'R CYLCH AM BLYGU Y RHIFYN HWN O'R ECO

ECO'R WYDDFA

RHIF 167
MAWRTH 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAWRTH 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH,

MAWRTH 19

os gwelwch yn dda.

Llafar

'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog . . .'

A ninnau ar drothwy gwyl ein nawddsant, purion fyddai i ni bendroni am ychydig ar yr enwogion a aned ac a faged o fewn ein bro, a'r dulliau sydd gennym o'u mawrygu a'u coffhau. Ac o ystyried, rhaid cyfaddef mai ychydig iawn ohonynt sy'n cael eu coffhau mewn unrhyw fodd.

Un weithred seml yw gosod arwydd cerfiedig ar lechfaen ar dalcen y tŷ ble'u ganed. Ond cysidwrch cyn lleied o'r rheini sydd o fewn ein bro: Dafydd Ddu yn y Waunfawr; T. Rowland Hughes yn Llanberis; H. R. Jones yn Neiniolen a W. J. Gruffydd ym Methel — a dyna'r cyfan. Rhaid cydnabod wrth gwrs, mai enwogion 'cenedlaethol' yw'r rhain, ond mae angen cofio am y rhai lleol hefyd — y rhai 'plwyfol' os mynnir; y gwŷr a'r gwragedd rheini a fu'n cynnal y traddodiad o fewn eu hardaloedd.

Clywais yn ddiweddar am Saeson wedi prynu bwthyn bychan ar gyrion bro'r Eco, ac wedi ymchwilio i hanes y tŷ. Wedi darganfod fod bardd nid anenwog wedi ei eni a'i fagu yno, mynegwyd siom nad oedd y gymdeithas leol wedi ystyried gosod unrhyw arwydd i gydnabod hynny ar wal y tŷ. Y canlyniad yw fod y pâr di-Gymraeg sy'n byw yno yn bwriadu gwneud iawn am y diffyg.

Cysidwrch o ddifrif faint o enwogion lleol sy'n haeddu cael eu coffhau — ac rwy'n pwysleisio'r gair 'lleol'. Does dim rhaid iddynt fod o bwys cenedlaethol; ond mae'n ddyletswydd ar ein cymunedau presennol i geisio rhyw ddull o gofio am arwyr y gorffennol. A pheidied neb a meddwl mai dim ond am feirdd a llenorion y dylid cofio.

Beth am i Gynghorau Bro'r Eco glustnodi rhai cartrefi o fewn eu cymunedau ble gellid gosod arwydd i gofnodi'r ffaith fod unigolyn o bwys lleol wedi ei eni a'i fagu yno? Oni fyddai'n bosibl wedyn i gynllunio 'Taith Dreftadaeth' o gwmpas y fro? Rhaid cofio fod Cymru yn treulio'u gwyliau yng Nghymru, ond mai prin yw'r wybodaeth mewn pamffledi a llyfrynau am dreftadaeth ein gwahanol gymunedau.

Byddai'r Eco yn fwy na pharod i dderbyn awgrymiadau, ac i gyhoeddi rhestr o'r enwogion lleol y tybiwch chwi ddarllenwyr y dylid eu cofio. Fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl . . .

Llythyrâu G.A.N.G.

Bwriedir sefydlu G.A.N.G. — Grŵp Aelodaeth Nant Gwrtheyrn, gyda'r gobaith o ffurfio dolen gyswllt rhwng yr holl bobl sydd â rhyw gysylltiad â'r pentref, boed yn dilyn cwrs, yn byw yn lleol, neu yn syml yn credu'n gryf yn yr egwyddor o Ganolfan Iaith.

Am dâl aelodaeth o £10 byddwch yn derbyn pedwar cylchlythyr newyddion y flwyddyn, sticer car y Nant a gostyngiad o 5% ar lety ac elfen addysg yn y Ganolfan rhwng Hydref 1, 1991 a Mawrth 1, 1992.

Yn ôl Swyddog Marchnata'r Ganolfan Iaith, Iola Jones, cynhaliwyd arbrawf bychan i weld jos oes galw am y math yma o wasanaeth, ac yn wir derbyniwyd ymateb ffafriol iawn.

Os ydych chi'n dymuno bod yn un o'r GANG, anfonwch neu ffoniwch am Ffurflen Ymaelodi.

Y cyfeiriad yw:

Y Ganolfan Iaith Genedlaethol
Nant Gwrtheyrn
Llithfaen
Pwllheli
(075 885 334)

LIMERIG Y FLWYDDYN

Lansiwyd y gystadleuaeth 'Limerig y Flwyddyn' gan BBC Cymru yn ystod yr wythnos yn cychwyn 18 Chwefror ar raglenni *Stodin Sulwyn*, a *P'nawn Da Ichi*.

Bydd panel o feirniaid yn dewis y limerigau gorau ac fe fydd nifer dda o wobrau yn cael eu cynnig gyda gwobr arbennig i'r limerig orau un.

Bydd y gystadleuaeth yn agored hyd Mawrth 31, ac fe drefnir noson i adrodd, canu a beirniadu'r limerigau yn Theatr Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin ddiwedd Ebrill.

Anfoner y Limerigau, gyda ffugenw (ond gan gofio amgau yr enw a'r cyfeiriad neu rif ffôn mewn amlen gaeedig) i:

Limrig y Flwyddyn
Coleg y Drindod
Caerfyrddin
(cyn Mawrth 31, 1991)

NOSON GOFFI

yn Ysgol Gwaun Gynfi
nos Wener, 5 Ebrill, 1991
am 6.30 o'r gloch.
Nifer o stondinau a raffl.
Mynediad:
Oedolion 30c. Plant 20c.

Cofeb ac Ysgoloriaeth Goffa i Jennie Eirian

Sefydlwyd pwyllgor lleol yn ddiweddar yn Llanpumsant gyda'r bwriad o godi Cofeb ym mhentref genedigol y ddiweddar Jennie Eirian Davies, ynghyd â sefydlu Ysgoloriaeth neu wobwr flynyddol i blant neu bobl ifanc yr ardal, a fydd yn goffâd parhaol am un o ferched disgleiriaf y fro.

Dyma a ddywedir amdani yn y llyfr 'Cofio':

'Roedd Jennie Eirian yn un o ferched mwyaf nodedig ein cyfnod. Nid oedd ei huotlach yng Nghymru a rhoes urddas ar bulpud a graen ar lwyfan. Fel athrawes ysgol a darlithwraig coleg goleuodd y Cymry ifanc, ac o gadair golygydd Y Faner llywiodd feddwl y genedl. Fflachiau ei disgleirdeb yn gyson trwy ffenest y teledu a gwreichionai ei dawn a'i hiwmor ar lwyfannau'r wlad. Bu fyw yn angerddol dros Gymru a thros Grist.'

Er mwyn sicrhau digon o gyllid i alluogi'r pwyllgor lleol i gyflawni ei fwriadau gwahoddwn unigolion, ffrindiau, mudiadau a'u canghenau, a chyrff eraill sy'n cynrychioli pob agwedd o fywyd Cymru i gyfrannu tuag at y Gronfa Agored a sefydlwyd.

Mawr obeithiwn y gwelwch chi eich ffordd yn glir i'n cefnogi gan y bydd eich cyfraniad yn sicrhau coffâd parhaol i un o'n merched anwylaf.

Anfoner pob cyfraniad i:

J. Dyer (Trysorydd)
Parc y Delyn
Llanpumsant
Caerfyrddin
Dyfed SA33 6JP.

Sicciau i 'Gronfa Goffa Jennie Eirian'.

Dyddiau Arbennig i Blant Ysgolion Sul

Mae diwrnodiau arbennig wedi eu trefnu ar gyfer plant Ysgolion Sul ym Myd Gwyliau Butlins ym Mhwllheli, dydd Sadwrn, 29 Mehefin a 6 Gorffennaf, 1991.

Cafwyd dau drip Ysgol Sul anferthol y llynedd, gyda'r dau ddiwrnod yn profi'n llwyddiant mawr.

Bydd yno wasanaeth croeso arbennig, ynghyd â sioe a fydd yn cynnwys rhai o sêr y byd teledu.

Pris tocynnau: £3, (sy'n 75c yn rhatach na'r pris arferol i grŵp). Beth am drefnu trip i fynd yno.

Bydd Gwersyll Arbennig ar gyfer plant Ysgolion Sul Cymru, a'u ffrindiau, yn Llangrannog yn ystod gwyliau'r Pasg eleni.

Mae yna ddau wersyll o dan nawdd Cyngor Ysgolion Sul, sef 25-29 Mawrth ac 1-5 Ebrill, 1991.

Fe fydd holl atyniadau arferol Llangrannog ar gael megis merlota, BMX, sgio, chwaraeon, nofio, disco, sgelfrolio, a llawer iawn mwy.

Yn ogystal, bydd yn gyfle i ddysgu am lesu, mewn ffordd ddiddorol a chyfoes. Gwesteion yn ystod yr wythnos i gynnwys Rosfa'r Consuriwr a Tecwyn Ifan. Cost yr wythnos yw £59, ac fe fydd yna fwsiau yn cludo'r plant i'r gwersyll.

Am fanylion pellach, cysyllter a:

Parch D. Aled Davies
Cyngor Ysgolion Sul
Ysgol Addysg, C.P.G.C.
Ffordd Deiniol,

Bangor, Gwynedd LL57 2UW
Ffôn: (0248) 351151, estyniad 2947

CLWB ERYRI

Bydd cyfarfod ychwanegol i dymor Clwb Eryri, nos Wener, 8 Mawrth, yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Ceir darlith gan yr hanesydd Mr Emyr Price, Bethel.

Yn y cyfarfod blaenorol cyhoeddwyd fod Rol Williams yn rhoi gorau i'r swydd o Ysgrifennydd y Clwb — swydd y mae wedi ei llanw ers sefydlu'r Clwb yn 1955.

YN Y THEATR

Ddydd Mawrth, 12 Mawrth, bydd Cwmni Arad Goch yn cyflwyno 'Cawod o Eiriau', yn Theatr Gwynedd, Bangor.

Dyma 'ddarn o theatr ddelwedd — fel breuddwyd neu gyfres o atgofion niwlog am ddigwyddiadau go iawn a digwyddiadau mewn llenyddiaeth . . . cyflwyniad gweledol iawn.'

Bydd dau berfformiad y dydd, am 10.30 ac am 1.30 o'r gloch.

Swyddfa docynnau:
Bangor (0248) 351707.

BLERWCH EIN BRO

Doluriau Llygad — Meddyginiaeth

1. PENLLYN, BRYNREFAIL

Yn rhifyn Ebrill y llynedd y cyhoeddwyd llun o'r llastr o hen geir rhydlyd rhwng pentref Brynrefail a phont Penllyn, gan ofyn a'i hwn oedd dolur llygad mwya'r fro. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bu Cyngor Arfon yn gweithredu mewn modd i gael gwared a'r llastr. Bellach cafwyd gorchymyn o'r Swyddfa Gymreig, ac y mae'n orfodol ar i'r cyfan gael ei glirio o'r safle erbyn diwedd yr wythnos gyntaf ym Mehefin eleni.

Felly, yn rhifyn Gorffennaf eleni gobeithiwn gyhoeddi llun o'r safle yn glir o bob llastr.



2. LLANRUG

Rhan arall o'r fro sy'n prysur ddirywio'n ddolur llygad ac yn achos pryder yw safle hen 'Church Hall' yn Llanrug. Mae'r hen adeilad wedi ei ddymchwel a llawer o'r distiau a'r coed wedi eu clirio. Yn anffodus, gadawyd geriach a sbwriel ar ôl, ac er fod sgips wedi eu cario yno yn dilyn pwysau gan drigolion lleol, eto'i gyd, gorwedd yn segur a wnant, heb olwg o neb yn dod yno i'w

llenwi. Yn y cyfamser, mae'r trigolion cyfagos yn dal yn bryderus. Chwythwyd darnau o sbwriel drosodd i'r lôn ac i erddi tai yn ystod y gwyntoedd diweddar. Deallwn hefyd fod car a oedd wedi parcio gerllaw wedi ei daro pan chwythwyd y gataiau haearn mawr yn agored. Does ond diolch hyd yma na chafodd plentyn ei anafu.

Ond pwy sy'n gyfrifol am glirio'r gweddill o'r safle? Mawr obeithiwn na fydd yn rhaid disgwyl blwyddyn fel yn achos Brynrefail i weld y safle hon yn glir o lanastr.

Chwip Dîn i Gynghorwyr

Flwyddyn yn ôl cyhoeddwyd y gyntaf o gyfres o erthyglau yn trin a thrafod polisiau yn ymwneud â chaniatâd cynllunio o fewn ein bro. Un llythyr o ymateb yn unig a dderbyniwyd gan yr *Eco*. Er hynny, bu'r erthyglau yn destun sawl sgwrs mewn sawl lle ar hyd a lled y fro. Roedd yr erthyglau rheini yn canolbwyntio ar nifer y ceisiadau a ganiateid gan gynghorwyr, a hynny yn groes i bolisiau Cynllun Lleol Arfon Wledig — polisiau a fabwysiadwyd gan y cynghorwyr eu hunain. Bryd hynny, pwysleisiai Prif Swyddog Cynllunio Arfon ei bryderon. Roedd yn bwysig, meddai: . . . i'r Cyngor gael ei weld yn gweithredu mewn modd cyfrifol a chyson o ran dilyn ei bolisiau, a rhoi sylw priodol i oblygiadau gwyrdd oddi wrth y polisiau hynny.

Mae'r Prif Swyddog Cynllunio a lefarodd y geiriau uchod — Dafydd Hughes — bellach wedi ymadael â'r swydd, a'i olynydd newydd ei benodi. Yng nghyfarfod Chwefror o'r Pwyllgor Cynllunio, y Dirprwy Brif Swyddog Cynllunio a fu'n gyfrifol am 'dynnu i mewn' dri chais cynllunio: tri chais a oedd yn groes i bolisiau'r Cyngor, ond rhai yr oedd y Pwyllgor Cynllunio yn argymhell eu caniatâu. Bydd y tri chais bellach, yn ychwanegol at un arall o Bwyllgor Cynllunio mis Ionawr, yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor llawn fis Mawrth. Yn sgîl y penderfyniad hwn ar ran y Dirprwy Brif Swyddog Cynllunio, rhoddwyd rhybudd amserol i'r aelodau gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'u dull o

anwybyddu polisiau cynllunio, a'r oblygiadau cyfreithiol a allasai ddilyn hynny.

Yr un oedd sylwadau'r Prif Swyddog Cyfreithiol. Dywedodd mai cael a chael fu hi i ennill un apêl ddiweddar, a hynny oherwydd fod penderfyniadau a wnaed yn y gorffennol wedi tanseilio achos y Cyngor. Roedd yr achos arbennig hwn yn ymwneud â thir o fewn bro'r *Eco*.

Y brif gŵyn ynglŷn ag anwybyddu polisiau yw fod cynghorwyr yn ystyried 'amgylchiadau personol' ymgeiswyr — pa amgylchiadau bynnag fo'r rheini, a hynny ar draul

canllawiau a rheoliadau cynllunio. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod mai ceisio helpu pobl leol roedd y cynghorwyr, ond roedd y swyddogion yn bryderus ynglŷn â'r dull a ddefnyddiai'r cynghorwyr i wneud hynny. Mae'n ymddangos mai'r cyfan y bydd cynghorwyr ei angen i gefnogi cais cynllunio yw enw a chyfeiriad lleol yr ymgeisydd, ac nid beth yw'r cais. Ac fel y dywedwyd yn yr *Eco* fis Mai diwethaf, mae oblygiadau y fath safbwynt yn ddifrifol iawn.

Efallai ei bod yn bryd adfer yr hen wialen fedw — a'i hongian hi ar wal Siambr y Cyngor yn ystod pob Pwyllgor Cynllunio.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Y GALW AM DDEDDF IAITH

ARGYMHELLION Y BWRDD IAITH I'R YSGRIFENNYDD GWLADOL

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi argymhell yn gryf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod angen prif ddeddfwriaeth nawr i ddiogelu dyfodol yr iaith Gymraeg.

'Byddai Deddf Seneddol yn seiliedig ar y cynigion a argymhellwn, ac sy'n cael eu cyhoeddi heddiw, yn fframwaith cryf i adeiladu arno ar gyfer dyfodol yr iaith Gymraeg,' meddai John Elfed Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae'r Ddeddf a awgrymir yn mabwysiadu dull hollol wahanol i'r un a fabwysiadwyd yn Neddf 1967. Byddai'n:

1. Gwneud y Gymraeg yn ddilys at bob diben swyddogol, gan gynnwys gweinyddu barn;
2. Creu hawliau a dyletswyddau ynglŷn â defnyddio'r iaith at bob diben felly;
3. Diwygio Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 drwy ei gwneud yn gyfreithiol i gyflogwyr wneud y gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster ar gyfer swydd;
4. Sefydlu corff parhaol gyda phwerau a dyletswyddau statudol i hybu buddiannau'r iaith;
5. Cael ei hatgyfnerthu gan gyfraith gwlad a meddyginiaethau statudol, a;
6. Eang o ran ei heffeithiau.

Byddai hyn i gyd yn digwydd heb gwtogi ar hawliau'r di-Gymraeg.

'Gobeithio,' meddai Mr Jones, 'y bydd y rheiny sy'n bwriadu rhoi sylwadau cyhoeddus am y cynigion yn darllen yr adroddiad egluro sy'n cael ei gyhoeddi yr un pryd â'r mesur drafft. Bwriedir i hwn ysgogi trafodaeth ddoeth, oleuedig ac adeiladol.'

Mae'r cynigion hyn wedi eu datblygu'n ofalus mewn pum cam. Y cam cyntaf oedd cyhoeddi'r cynigion ymgynghorol ym mis Tachwedd 1989. Bwriadwyd yn wreiddiol i'r Swyddfa Gymreig gynnal yr ymgynghori, ond yn fuan ar ôl y dyddiad cyhoeddi penderfynwyd y dylai'r Bwrdd ymgymryd â'r gwith. Golygodd hynny arbed cryn amser. Yna dilynodd dadansoddiad o'r ymatebion, ac ystyried y cynigion ymgynghorol yng ngoleuni'r ymatebion, ac roedd angen gofyn am eglurhad ar ambell ymateb. Y cam olaf oedd llunio drafft o'r Mesur a argymhellir ac ysgrifennu'r adroddiad.

Os bydd y Llywodraeth yn gweithredu'r cynigion hyn, bydd cyfnod newydd a chyffrous yn

dechrau yn natblygiad yr iaith Gymreg. Bydd angen i'r sector gyhoeddus a chyrff mwyaf y sector preifat ail-ystyried eu hagwedd tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Dylent gymryd fel esiamplau yr Adran Nawdd Cymdeithasol a Nwy Prydain ccc (Cymru). Mae'r rhain yn enghreifftiau da o'r hyn y gellir ei wneud pan fydd dynion a merched gyda gweledigaeth wrth y llyw.

Mae rhai pobl, ond ychydig iawn, wedi dadlau dros orfodaeth yn y sector preifat. Ar wahân i'r ffaith nad yw hynny wedi ei wneud o'r blaen, mae hefyd yn afrealistig ac afresymol ei gwneud yn ofynnol i unigolion preifat a chyrff ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Mae'n ddigon posibl y bydd y person di-Gymraeg sy'n rhedeg siop y gornel neu wasanaeth bwydydd parod yn gweld ei fod yn methu cydymffurfio â gofyniad felly.

Mae'r awgrym y dylai'r rhwymedigaeth honno fod yn gymwys yn yr un ffordd i nifer y bobl a gyflogir yn y busnes yn fymrwyl. Ni fyddai dyletswydd felly'n boblogaidd. Fe allai fod yn abswrdd, hyd yn oed. Gallai newid o ddydd i ddydd yn ôl y nifer a gyflogid. Byddai'n arbennig o abswrdd pe bai'r dyletswydd yn disgyn ar gyflogwr a gyflogai ddeg o ferched rhan-amser am bedair awr y dydd am bum diwrnod yr wythnos, ond nid ar gyflogwr a gyflogai bump o ferched amser-llawn am wyth awr y dydd am bum diwrnod yr wythnos. Yn y naill achos a'r llall, byddai'r cyflogwr yn darparu 200 o oriau o waith yr wythnos.

'Yn y Ddeddf a gynigir, credwn fod gennym gydbwysedd rhwng buddiannau'r iaith a buddiannau'r cyhoedd. Gallai fod yn gyfraniad hanfodol bwysig tuag at sicrhau dyfodol sicrach i'r iaith Gymraeg,' meddai Mr John Elfed Jones.

LLYTHYR AGORED GAN GYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Statws Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Gan fod Mr David Hunt, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn gwrthod cwrdd â chynrychiolwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hoffwn ddiolch i bapur newydd Y Cymro am ofyn nifer o gwestiynau difrifol iawn mewn cyfweiliad a gafwyd â Mr Hunt ar ddechrau 1991.

Gofynnwyd a oedd posibilrwydd y byddai'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno Deddf Iaith Newydd, o unrhyw fath o gwbl, yn ystod 1991. yr ateb syml oedd nacoedd — dim gobaith caner! Mor wrthwynebus i'r syniad o Ddeddf ydyw Mr Hunt fel ag yr aeth ymlaen i sôn am 'deimladau cryf' yn erbyn y syniad o Ddeddf.

Y mae cannoedd o bobl wedi wynebu achosion llys, a rhai wedi bod yn y carchar, oherwydd eu hawydd i ddefnyddio eu hiaith eu hunain. Cynhaliwyd raliau di-ri gyda miloedd o bobl ar strydoedd trefi Cymru benbaladr yn cefnogi'r syniad o Ddeddfwriaeth. Onid oedd arolwg annibynol HTV yn dangos bod 80% o bobl Cymru am gael Deddf? Onid oedd ymchwil y Swyddfa Gymreig ei hun wedi profi bod eisiau Deddf? Onid yw Bwrdd yr Iaith hyd yn oed, wedi dweud bod rhaid Deddfu?

Am wn i y CBI yw'r unig corff o bwys i wrthwynebu'r syniad o Ddeddf Iaith Newydd. Mae'n debyg bod hi'n llawer iawn gwell gan Mr Hunt wrando ar farn y CBI nac ar farn pobl Cymru. Ydy o'n wir eu bod yn talu arian mawr i blaid Mr Hunt?

Ar ôl gwneud ei safiad yn ddigon clir y mae Mr Hunt yn fodlon gwrando ar gynrychiolwyr yr Eisteddfod Genedlaethol. Pa obaith sydd gan Syr Melfyn Rosser, Y Gwir Archesgob George Noakes, Dr Derec Llwyd Morgan, Mr Emyr Jenkins, Mr Prys Edwards, Mr Hubert Morgan a Mr Bob Roberts? Er bod pennawd Y Cymro'n datgan bod meddwl agored gan Mr Hunt ar fater y Ddeddf mae'n ymddangos i ni ei fod eisoes wedi penderfynnu ar y mater.

Ymddengys hefyd fod Bwrdd yr Iaith yn oedi cyn cyhoeddi ei ddrafft o'r ddeddf, nes bod Mr Hunt wedi

cwrdd â dirprwyaeth yr Eisteddfod. Ymddengys hefyd y bydd Mr Hunt yn gwybod manylion y drafft cyn y cyfarfod er na fydd neb arall yn y cyfarfod ac unrhyw syniad am awgrymiadau'r Bwrdd. Bydd y cynrychiolwyr felly o dan anfantais anferth o'r dechrau un.

Wrth gwrs mae Mr Hunt eisoes wedi paratoi ei ymateb iddyn nhw, 'Mae hi'n iaith mor brydferth, mor farddonol — mae ganddi ei hud ei hun . . .' meddai Mr Hunt. Y mae o am roi'r Gymraeg mewn bin sbwriel rhamantaidd ac yn gobeithio y bydd cynrychiolwyr yr Eisteddfod Genedlaethol a Chymry dosbarth canol y Bwrdd iaith yn selio'r caead cyn dyned ag arch.

Y mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am weld Deddf iaith effeithiol yn awr. Yr ydym am weld dyfodol ymarferol i'r iaith, bob dydd ymhob rhan o Gymru — nid yn Amgueddfa Rhamantus Mr Hunt. Galwn ar bawb yng Nghymru i barhau i weithio dros Ddeddf iaith Newydd effeithiol a fydd yn sicrhau dwyieithrwydd fel y norm yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,


Steffan Webb,
Cadeirydd Grŵp Statws,
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

RHODDION

Gyda diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i gronfa'r Eco:

- £5: Dr a Mrs R. S. Williams a'r plant, Tros y Gors, Waunfawr.
£3: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Mrs Mary Ellen Hughes, 26 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, Brynrefail; Mrs E. M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis; Joan a Dafydd Hughes, 1 Stryd Tomos, Llanberis.
£2: Jason Jones, 34 Stryd Newton, Llanberis; Marc, 12 Coed y Glyn, Llanberis; Gareth Morris, Oakfield, Llanberis; Mrs Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn, Llanberis; Beryl Owen, Maes Padarn, Llanberis.

BARRY'S GLASS



Drysau a
Ffenestri
uPVC

Drysau
Patio



CAMELOT
PENISARWAUN
Ffôn: 871144

Bistro
43-45

Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn 871278



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON



Bu'r misoedd diwethaf yn rhai prysur iawn i aelodau'r Clwb gyda nifer o gystadleuthau yn cael eu cynnal. Cystadleuaeth newydd oedd yr un 'Brenin Amaeth' a gynhaliwyd yn y Dome, Caernarfon. Aeth nifer o aelodau'r clwb yno i gefnogi'r dewraf ohonom a oedd yn fodlon cystadlu, sef Eurwyn Jones, fe dalodd inni fynd i gefnogi gan y gwobrwywyd ef yn drydydd.

Siaradwyr Cyhoeddus Llwyddiannus

Ar 16 Ionawr i Ysgol Pentrefoelas aeth saith o'r aelodau i gystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Eryri, dan 16 a 21 oed. Y tîm dan 16 oed oedd Donna Roberts fel Cadeirydd, Catrin Thomas fel Siaradwr, a Llinos Jones fel Diolchydd. Daethant yn gyntaf fel tîm a Catrin yn gyntaf fel siaradwr a bydd yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri yng nghystadleuaeth Cymru. Aled Jones, Tudur Parry, Wendy Thomas a Menna D. Williams oedd yn y tîm dan 21 oed. Ar ffurf Seiat Holi mae'r gystadleuaeth yma, a thrafodwyd tri thestun mewn ugain munud. Aled oedd y Cadeirydd a gwnaeth waith da fel y gweddill o'r tîm, gan ddod yn gyntaf. Byddant hwy yn mynd ymlaen yn awr i gystadlu dros Eryri. Diolch i Eurwyn am fynd a rhai aelodau i Bentrefoelas.

Gemau yn y Ganolfan

Canolfan Arfon oedd y gyrchfan nesaf i gystadleuthau Eryri gyda cystadleuthau nofio ar 30 Ionawr, a

Badminton a Tennis Bwrdd ar 1 Chwefror. Mae nofwyr o fri yn y clwb yma gan fod Aled wedi dod yn gyntaf yn ei ddwy ras ef dan 26 oed, Gail wedi cyflawni'r un orchwyl yn ei rasus hithau dan 26 oed, a Robin yn gyntaf dan 16 oed. Daeth Ffion yn drydydd a phedwerydd yn ei rasus hithau dan 16 oed. Tudur a Tegwen fu'n chwarae Badminton; daeth Tegwen yn drydydd. Robin a Ruth fu'n ein cynrychioli yn y Tennis Bwrdd.

Bu nifer o nosweithiau difyr yn y clwb ar nos Fawrth yn ogystal, megis noson yng nghwmni'r milfeddyg Huw Geraint; noson o chwaraeon a noson yn gwylio fideo. Nos Fawrth, 12 Chwefror Sioned Parry, un o'r aelodau sydd ar gwrs arlwyio yng



Ar y dde mae Aled, Tudur, Wendi a Menna gyda'r cwpon a enillwyd yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus dan 21 oed.



Donna, Catrin a Llinos oedd y tîm buddugol ar Siarad Cyhoeddus dan 16 oed. Bydd Catrin yn cynrychioli Eryri fel siaradwr unigol yn y gystadleuaeth genedlaethol.

Ngholeg Technegol Gwynedd, oedd yn ein dysgu sut i wneud crempogau. Cafodd pawb dro ar wneud crempog

a'u mwynhau a phaned wedyn. Diolch yn fawr i Sioned am ein diddori.

DERBYN YR M.B.E.

Llongyfarch Huw fel pentre
O'r gogledd lawr i'r de
Am gadw'r hen eglwysi
A chastell mawr y dre.

Dechreuodd yn y cwmni
—Saer coed oedd wrth ei waith
Ond derbyn swydd arbennig
Wnaeth rôl blynyddoedd maith.

Aeth Huw ymlaen i'r Palas
I dderbyn M.B.E.
A'i gyfarch wna'r frenhines
—A dyma fo mewn sbri.

Pan ddaw yr amser heddiw:
Het galed a thei bô
—a chadw'r cwbl wedyn
Mewn cwpwrdd o dan glo!

Wrth droi yn ôl am adref
Rôl diwrnod hir a maith
—I bentref bach yng Nghymru—
Ymlaen â fo—a'r gwaith.

W.H.W., 'Arfryn', Llanrug.

'Llaw y Diwyd a Gyfoethoca . . .'

Gweill oedd yn clecian ac nid tafodau pan gyfarfu aelodau o Bwyllgor Anabl Merched y Wawr Rhanbarth Arfon yn Festri Salem, Caernarfon dro'n ôl.

Bob blwyddyn bydd y Pwyllgor yn anelu at godi £1,000 o leiaf i brynu offer fydd o gymorth i'r anabl yn Arfon. Un o'r gweithgareddau eleni oedd noson o ddistawrwydd noddedig, ac fe gasglwyd tua £800 tuag at y nôd.

Bu hon yn noson o fudd i Oxfam hefyd, oherwydd roedd y Pwyllgor wedi penderfynu gwau siwmperi i blant anghenus y Trydydd Byd tra'n eistedd mewn tawelwch. Casglwyd y cynnyrch ym mis Ionawr, ac mae gennym eisoes tua hanner cant o siwmperi yn barod i'w cyflwyno i gynrychiolydd Oxfam.



Côr Ffermwyr Ieuan a fu'n cystadlu yn Ysbyty Ifan yn ddiweddar.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ysgol Gwun Gynfi: Dydd Llun, 28 Ionawr, cafwyd cyfarfod cyntaf o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol, pryd y trafodwyd 'Darllen ar y Cyd' gyda chymorth ffilm ddiddorol. Cafwyd sgwrs hefyd gan Mr Richard Ellis Owsen, Uwch Seicolegydd Addyst a Mr Gareth Roberts, Uwch Athro Anghenion Addysgol Arbennig. Yn dilyn hyn cynhaliwyd Ffair Lyfrau a threfnodd y Gymdeithas luniaeth ysgafn i gloi'r noson. Diolchwyd i'r prifathro, Mr Glyn O. Roberts, am drefnu'r noson ac am ddiddordeb a chefnogaeth y rhieni.

Anfonwn ein dymuniadau da i Iwan Wyn Jones, 5 Bro Elidir, Dinorwig gafodd ddamwain i'w goes tra'n chwarae yn yr eira yn ystod y cyfnod gaeafol hwnnw ddechrau'r mis bach. Hefyd ein cyfarchion cywir iawn i Mrs Olive Jones, 1 Hafod Olau sy'n gweithio yng ngegin yr ysgol ac sydd heb fod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar. Dymuniadau pawb yn yr ysgol yw am i'r ddau gael gwellhad llwyr a buan.

Enillwyr y raffl oedd — tocyn llyfr: Mrs Shan Roberts, Rhesdai Cynfi; nwyddau: Mrs Sian Hughes, Rhesdai Faenol; gwin: Mr P. Sellars, Gallt-y-Foel. Yn ogystal tynnwyd y Clwb Cant a'r enillwyr oedd: £8, Miss Iona Williams, Ysgol Gwaun Gynfi; £4, Mr Barry Jones, Clwt-y-Bont; £3, Miss O. Jones, Brynrefail. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

Yr Ysgol Sul Unedig: Mae'r Ysgol Sul yn parhau i gyfarfod yn Ebeneser bob prynhawn Sul a hyfryd yw nodi cynnydd yn y diddordeb a'r presenoldeb. Ar ôl gwyliau'r Nadolig, daeth tair athrawes atom o'r newydd, sef Miss Sioned Evans, Miss Linda Thomas a Miss Joyce Williams ac mae'r disgyblion wrth eu boddau gyda'u hathrawesau newydd. Braf yw gweld nifer o ddisgyblion newydd yn cofrestru hefyd. Diolch i eglwysi Cefn-y-Waun ac Ebeneser am eu cymorth ariannol i'r Ysgol Sul hefyd ac am fuddsoddi mewn ieuenctid a phlant.

A chwi, oedolion, beth am i chwi dreulio ond un awr allan o'r 168 a geir mewn wythnos yng nghwmni'r nifer dda sy'n mynychu bob pŵn Sul? Beth amdani?

Merched y Wawr: Cynhaliwyd y cyfarfod nos Lun, 18 Chwefror. Daeth Leslie a Nany Jones, Penisa'rwaun i ddangos sleidiau o'u gwyliau yng

Nghanada. Diolchwyd iddynt gan Mrs Margaret Roberts. Cinio Gŵyl Ddewi fydd y cyfarfod nesaf.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb uchod ar 5 Chwefror, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Janet Bingham, Mrs Aileen M. Jones, a Miss Eileen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eileen Williams, a'r enillydd oedd Mrs Jane E. Hughes. Llongyfarchwyd Mrs Mary Hughes, Rhydfadog ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Ellen Williams, Bwthyn ac hefyd i Mr O. R. Williams a Mr Griff Owen. Diolch unwaith eto i Mr Robert H. Jones, Rhydfadog am ei haelioni tuag atom.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan ar 4 Chwefror. Llywyddwyd y noson gan Mrs Eirlys Williams. Y gŵr gwadd oedd Mr E. W. Evans, Llanrug, dangosodd ffilmiau a rhoi hanes 'Addurno Ffynhonnau' a chafwyd noson ddifyr iawn. Croesawyd aelod newydd, Mrs Olive Edwards. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Lloyd Jones a Miss Eileen Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs M. Wyn Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 4 Mawrth, pryd y bydd yr aelodau yn ymweld ag Arddangosfa Crefftwaith Dathliad 75 mlynedd Sefydliad y Merched yn yr Oriel, Llanberis, gyda lluniaeth yn dilyn yng Ngwesty Gwynedd. Bydd y bws yn gadael Rhydfadog am chwarter i saith.

Cydymdeimlo: Yn ystod y mis a aeth heibio bu farw Miss Ann Jones, 6 Green Terrace. Cymeriad distaw oedd Miss Jones. Bu'r angladd ym mynwent Macphela pryd y gwasanethwyd gan y Parchg John Pritchard y Gweinidog. Gadawyd un chwaer sydd yn byw ym Manceinion ers blynnyddoedd. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Dathlu 90 oed: Ar 9 Chwefror dathlodd Mrs Mary Ellen Hughes, 26 Rhydfadog ei phen-blwydd yn 90 oed. Dymuna ddiolch yn fawr iawn i'w phlant a'r teulu i gyd; cymdogion a ffrindiau am y cardiau, arian, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd. Diolch hefyd i'r Parchg D. John Pritchard, y Gweinidog, ar ran Capel Cefn-y-Waun, am y rhodd hardd o'r Testament Newydd a gafodd ganddynt ar yr achlysur hwn. Diolch i bawb.



Yn 90 oed — Mrs Mary Ellen Hughes.

Llongyfarchiadau i Rhian a Keith Morris, Dorlan, Maenan Road, Llandudno, ar enedigaeth mab, Gethin Wyn, brawd i Rhys Wyn. Dymuniadau gorau iddynt.

Y Seindorf: Canlyniadau Pencampwriaethau Gogledd Cymru: Unawd dan 10 oed: 4, Shaun Jones. Unawd 14-16: 1, Martin Williams; 3, Sion Wyn Hughes. Unawd 16-18: 2, Emily Roberts. Deuawd 14-18: 1, Dylan Williams a Sion Wyn Hughes; 2, Eilir Williams a Euros Williams; 3, Nia Saynor a Gavin Saynor. Pedwarawd 14-18: 1, Eilir Williams, Euros Williams, Dylan Williams a Emily Roberts; 2, Dylan Hughes, Martin Williams, Sion Wyn Hughes a Dyfan Siôn. Unawd dros 18: 2, Iwan Williams. Air Varie dros 18: 3, Iwan Williams. Deuawd dros 18: 1, Iwan

Williams a Dylan Cole Jones.

Enillwyr Clwb 200.

Ionawr: £25, Llio Morris, Llanfairpwll (136); £15, Eleanor Morris, Deiniol Road (176); £10, Eifion Hughes, Vaynol Terr. (51). **Chwefror:** £25, Lena Jones, c/o Goronwy (67); £15, James Grindley, Deiniolen (156); £10, Mair Jones, Caernarfon (28).

GYRFA CHWIST

am 7.30 o'r gloch
yn Ysgol Gwun Gynfi
nos Wener, 8 Mawrth, 1991.
Gwobr o £10 i'r sgôr uchaf, a
nifer mwy o wobrau
gwerthfawr.
Mynediad £1

CYNGOR I BAWB SYDD YN CADW IEIR

Noson o'r blaen yn Rhwng-y-Ddwyrdd
I gwt yr ieir daeth ymwelydd busneslyd
A tarfu ar yr ieir a rheiny'n clwydo
Rheddodd y ffarmwr yno, i weld achos y cyffro

Tra'r ieir yn clochdar, a sgrialu i bob cyfeiriad
Gwelwyd llwynog yn cyflawni lladrad
Methodd gael iar, ond mae'n ddigon hirben
Yn ei geg roedd ganddo hwyaden.

Yn ei ddychryn ma' raid, ei gollwng wnaeth o
Meddai, 'Gwell einioes na hwyaden i mi heno'
A'i heglu hi yn ddiogel am gaeau Clwt Bel
Ond gwyliwch ni wyddoch pa bryd y dychwel.

Y mae'r wers yn ddigon synhwyrus
Gochel bod yn esgeulus
A gofalu cloi y drws yn daclus
Gall ymweliad y llwynog fod yn gostus.


H.J.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

DISGWYLFA, DEINIOLEN

Cynhaliwyd yr oedfaon olaf yn festri Disgwylfa, Deiniolen, yn ddiweddar. Roedd eglwys Disgwylfa eisoes wedi ymuno ag eglwys Cefnywaun ddechrau'r flwyddyn hon. Penderfynwyd gwneud hynny a chau Disgwylfa oherwydd bod cyflwr y capel a'r festri wedi dirywio yn arw ers blynnyddoedd. Roedd y penderfyniad i beidio â defnyddio'r capel wedyn wedi ei wneud dros bedair mlynedd yn ôl. Wedi derbyn adroddiad pensaer am gyflwr yr adeiladau yn ystod haf 1989 bu'r aelodau yn trafod yn ddwys am ragor na blwyddyn cyn penderfynu cau'r capel ac ymuno fel eglwys ag eglwys Cefnywaun.

Ar Ionawr 20, y cynhaliwyd oedfaon y Sul yno am y tro diwethaf. Pregethwyd yn y ddwy oedfa gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard, a chyflwynwyd Beibl i blant yr eglwys i gofio am y capel. Yna, nos Iau, 31 Ionawr, cynhaliwyd yr oedfa olaf un i ddynodi cau y capel. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg O. J. Pritchard, Llanfair-fechan, Llywydd Henaduriaeth Arfon. Arweiniwyd yr addoliad gan un o gyn-weinidogion yr eglwys, y Parchg Stanley Williams, a'r Parchg Eifion Williams. Cafwyd anerchiadau gan y Parchg Eifion Williams, y Parchg Trefor Lewis a Mr Iolo Llywelyn. Cyfeiriodd Mr Williams at ei atgofion melyn o'i gyfnod yn aelod o'r eglwys, cyn annog y gynulleidfa i ystyried y byddai llawer i gapel arall yn gorfod cau onibai bod yr Efyngyl a'r Eglwys yn dod yn ganolog ym mywydau'r aelodau. Cyfeiriodd Mr Lewis at ei weinidogaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd yn Nisgwylfa ac eglwys eraill yr ofalaeth, ac annog yr aelodau i ymroi o'r newydd i waith yr eglwys wrth iddynt ymuno â chynulleidfa Cefnywaun.

Cyflwyno dymuniadau da Cyfarfod Dosbarth Padarn a wna Mr Llywelyn, a thra'n deall tristwch yr aelodau wrth gau'r capel, hyderai bod y penderfyniad i wneud hynny ac ymuno ag eglwys Cefnywaun wedi bod yn un doeth. Yn ei anerchiad yntau soniodd y Parchg John Pritchard am y tristwch oedd wrth gau'r capel, ond roedd hefyd yn gysur bod yr eglwys yn aros ac yn ymuno ag eglwys Cefnywaun. Gan fod yr

eglwys wedi ei sefydlu yn 1860 a'r capel wedi ei agor yn 1864 roedd yr eglwys yma o flaen y capel, ac roedd cysur wrth weld bod yr eglwys yn bod wedi cau'r capel hefyd, gan mai cyflwr drwg yr adeiladau a orfododd y cau yn hytrach na diffyg cynulleidfa.

Gwasanaeth Cau Capel Disgwylfa, Deiniolen 1864-1991



Roedd angen diolch bod 'Tŷ i Dduw' wedi bod yma am 125 o flynyddoedd, ac angen gobaith wrth ymroi i waith eglwys'r ofalaeth yn Neiniolen, gan hyderu y byddai Duw yn anrhydeddu'r gwaith ac yn ein harwin i well adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist. Cafwyd gweddi dros yr ofalaeth gan y

ATGOFION

gan un o Deulu Bryn Sinc

Mae y drysau yn awr ar gau ar ôl canrif a chwarter o fod yn fan addoli. Hoffwn gymeryd y cyfle hwn i fynegi ychydig bach o fy nheimpladau ac atgofion o un cyfnod, sef 1925-1939, pan oedd eglwys'r ardal yn llewyrchus ac yn rhan helaeth o fywyd cyffredinol yr ardal.

Cofio wnaaf am ddau weinidog yn y cyfnod hwn, sef Enoc Ellis Jones a Watcyn Jones, yn cael eu cynorthwyo fel blaenoriaid gan Methusalem; John Williams, Gors; Owen Ellis, torrwr cerrig beddau; Robert Morris, crydd; David Henry Thomas; Willias Scwl; Owen Owens; Owen Jones, Siop Jô; Emyr Pritchard; William Hughes, insurans; a William John Roberts, Corlannau.

Mae'r cofio hefyd am y codwyr canu, sef Harri Rowlands, Evie Williams a Bob Davies. Yn chwarae'r organ roedd Owen Richard Jones, Emyr Pritchard a Miss Pritchard (athrawes ysgol). Roedd yr Ysgol Sul yn cael ei mynychu gan nifer o blant ac oedolion, a rhai o'r athrawon a ddaw i gof oedd Mrs Pritchard (mam Emyr), Hywel Jones, Siop Gron, Miss Thomas a Miss Jones (Cloff).

Rhaid crybwyll hefyd rhai o'r ffyddloniaid a'u teuluoedd, yr amser hwn, sef Griffith Evans a Evan Morris, Sinc; Huw Williams, Bryn Sinc; ac o'r Teras, John Ellis Jones, teiliwr; William Williams, saer; Bob Williams (Daf); John Jones (Peris); Willie Roberts; Robat Williams, Gwilym Hughes; Mrs Edwards; Miss Williams; Sis a Rol, Penrolchfa. O'r Ciali roedd Alun Williams a John Hughes, a John Lewis o'r Pencraig. Yna o Clwt-y-Bont roedd David Davies, Dic Hughes, William Williams, Mrs Sali Williams (siop chips), Ann Owen, Jane Jones (Crown), a Miss Williams, Dorlan Goch. Yn y pentref roedd Evan Deiniol Jones o'r Rhiwen a Miss Jones, Green Terrace.

Mae'r cofio hefyd am y Seiat ar nos Fercher, Cyfarfod Gweddi nos Lun, y Band of Hope ar nos Fawrth, a'r Gymdeithas Lenyddol ar nos Iau, hefyd y clasus darllen gyda'r Gweinidog yn dysgu. Roedd cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn yn cael ei gynnal yn y festri ac yn para wythnos (nos Lun hyd nos Wener).

Diolch am y cofio hwn a'r cyfraniad a wnaeth yr aelodau i'r capel yr amser hwn. Wrth gwrs mae cofio o wahanol gyfnodau gan aelodau eraill. Ymddiheuraf os wyf wedi gadael rhai pobl allan.

Parchg Trefor Lewis, a thraddodwyd y fendith gan y Parchg Erfyl Blainey. Mr Arthur Wyn Rowlands oedd yr organydd. Rhwystrwyd y Parchg Terry Thomas, Aberteifi, un arall o gyn-weinidogion yr eglwys, rhag dod i gymeryd rhan yn yr oedfa gan eira trwm yn y Canolbarth.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

**TACSI
CARIAN**

- * Pell ac agos
- * Stesion, Maes
Awyr, Porthladd
- * 24 awr y dydd

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr.

1, £40: V. R. Davies, Bryn Gwyrfa; 2, £25: Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian; 3, £10: Mrs Pain, Penclip.

Y Gymdeithas Lenyddol: Oherwydd y tywydd anffafriol bu rhaid gohirio cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, 11 Chwefror, gyda Guto Roberts, ond da yw dweud y bydd Guto efo ni nos Lun, 4 Mawrth. Mae'r ail drefnu yn golygu y bydd dau gyfarfod ym mis Mawrth gan y bydd cyfarfod olaf y tymor, sef Noson Gartrefol, efo paned, nos Lun, 11 Mawrth, yn y Ganolfan.

Hospis yn y Cartref: Dewiswyd pwyllgor yn cynrychioli y gwahanol fudiadau yn Waunfawr a Chaeathro gyda'r amcan o godi arian tuag at yr apêl uchod. Ymdrech ar y cyd fydd hon. Gosodwyd targed o £2,000 a rhennir y swm yma — Waunfawr £1,500 a Chaeathro £500. Fel cam cyntaf bwriedir gwneud apêl i bob teulu yn y ddau bentref a gobeithir anfon llythyr i bob tŷ yn fuan yn nechrau mis Mawrth i egluro nôd yr apêl. Mae'r pwyllgor yn gobeithio'n fawr y rhoddir pob cefnogaeth i'r achos teilwng yma. Y swyddogion yw: Cadeirydd, Mrs C. A. Jones; Trysorydd, Mrs Mair Williams; Ysgrifennydd, Mr O. T. Jones.

Diolch i'r criw ddaeth i blygu'r Eco y mis diwetha ac i swyddogion Capel Croes-y-Waun am gael defnyddio'r festri.

Yn yr ysbyty: anfonwn ein cofion at Mrs A. Hughes, Gwastadfaes, Miss Marian Wyn Jones, Foel, Dôl Erddi, a Mrs Lewis, Tŷ Newydd, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Diolch: Dymuna Eira Wyn, Llwyn Celyn, ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty.

Croeso adref o'r ysbyty: Croeso i Heddu Gwynedd, Nant; Hefin Daniels, Stad Tŷ Hen; Mrs Mwynwen Jones, Tref Eilian; Mr John D. Lewis, Bryn Golau, Mrs Llinos dinwiddy, Glyn y Garth, a Mrs A. Taylor, Baladeulyn, Dôl Erddi, adref o'r ysbyty. Mae Mrs Hughes, Llys Meredydd wedi mynd i aros i gartref preswyl yng Nghaernarfon am gyfnod byr.

Llongyfarchiadau:

— i Huw Ynyr, Tan-y-Fron, ar ei ddywedd i lola o'r Wyddgrug;

— i Nesta Griffith, Eirianallt, ar ei dywedd i Michael Roberts o Gwm-y-Glo;

— i Carmen Pierce, Bryn Gwyn, ar ei dywedd i Bryn o Lanrug;

— i lawer o bobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo yn eu prawf gyrru car yn ystod y misoedd diweddar.

Ar y teledu: Gwelwyd llawer o wynebau cyfarwydd ar y teledu yn ddiweddar, ac edrychwn ymlaen i wyllo'r teledu ar ôl y ffilmio prysur fu'n mynd ymlaen yma'n ddiweddar.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr Evan John Jones, Argraig, 3 Stad Tŷ Hen.

— â Dr R. S. Williams, Tros-y-Gors, yn ei brofedigaeth o golli ei fam. Dymuna Raymond, Laura a'r plant ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cardiau a dderbyniwyd. Diolch i

bawb am eu gofal dros y blynyddoedd.

Arholiadau cerddoriaeth: Llongyfarchiadau i Gwenno Owen, Glyn Awel, am lwyddo yng ngradd 1 arholiad chwarae piano; ac i Geraint Roberts, Pant Afon ar lwyddo yng ngradd 3.

Y Ffliw: Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafodd llawer o drigolion y pentref eu taro gan y ffliw. Gobeithio eich bod yn dod atoch eich hun erbyn hyn.

Yr Urdd: Prysuodd tymor yr Urdd yn ei flaen, gyda Nan Wyn yn ymweld â'r plant, nos Fercher, 30 Ionawr. Diolch i Anti Glen ac Anti Eirwen am gynorthwyo. Hen gyfaill i'r plant, PC Alan Bevan fu yno nos Fercher, 6 Chwefror — diolch i Keith Owen am helpu i gadw trefn. Cafodd y plant fraslun o fywyd yr India drwy sgwrs a sleidiau yng nghwmni Modlen Lynch, nos Fercher, 20 Chwefror, gyda Anti Alma ac Anti Gill yn cynorthwyo. Diolch iddynt hwythau.

Cafodd y plant sy'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Bro ar 2 Mawrth, flas ar berfformio o flaen cynulleidfia yng nghyfarfod 27 Chwefror, pan ddaeth eu rhieni ynghyd i wrando arnynt yn ymarfer. Diolch i bawb sydd wedi bod wrthi'n brysus yn paratoi a dysgu'r plant — nid gwaith hawdd cael pawb ynghyd eleni, gyda'r ffliw yn creu hafoc â'r ymarferion. Dymunwn yn dda i holl aelodau o Urdd Waunfawr sydd yn cystadlu eleni — hwyl fawr i chi, blant.

Pwysig: Er mwyn diogelu dyfodol adran yr Urdd yn y pentref cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, 20 Mawrth. Taer erfynnir ar i holl rieni'r pentref sydd a phlant yn aelodau, neu a fydd yn aelodau'r dyfodol, a holl gyfeillion yr Urdd fynychu'r cyfarfod. Diolch o galon am eich cefnogaeth.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar ôl y Nadolig ar nos Iau, 24 Ionawr. Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd, Rhian Jones, a bu trafodaeth ar yr ohebiaeth mewn llaw. Cafodd y gangen ei diddannu wedyn gan dair aelod yn sgwrsio ar y testun 'Mae Gen I Drysor'. Dangosodd Joy Glyn dair eitem o'i heiddo a chafwyd hanesion difyr dros ben ganddi, ynghyd â gwers am dafodiaeth Sir Benfro.

Ei Nain oedd testun sgwrs Margaret Owen a gwelwyd sawl eitem ddiddorol iawn a fu'n perthyn iddi. Crewyd llun cynnes atgofus o aelod annwyl iawn o'i theulu.

Yr iaith Gymraeg oedd trysor Gill Brown. Diolchodd yr aelodau gan Gill Wyn, a bu Alma Jones yn gyfrifol am y te a'r raffl. Enillydd y raffl oedd Nan Huws Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 28 Chwefror i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cofiwch ddod a'ch cylllell a fforc a llwyau hefo chi i gael gwledd o noson.

Cyfeillion Cerdd Ieuencid Gwynedd: Trefnwyd achlysur i godi arian ar gyfer dydd Sadwrn, 9 Mawrth, yng Nghanolfan Waunfawr i ddechrau am 10 o'r gloch. Bydd ar ffurf chwarae offerynnau yn ddi-baid a bydd y chwaraewyr yn trefnu eu nawdd eu hunain. Gofynnir am berfformiad hyd at 5 munud, yn unawd neu mewn grŵp bychan. Bydd cacennau a bric

RHODRI PRYS JONES

Dydd Gwener, Chwefror 15, yn dawl yn ei gartref, Penygraig, bu farw Rhodri Prys Jones. Roedd maint y gynulleidfa a ddaeth i'w angladd brynhawn Mercher yn dyst o'r parch a'r edmygedd dwfn oedd yna i Rhodri yng nghalonau llaweroedd.

Maint y golled yn anad dim arall sy'n gwneud y golled hon yn ingol. Y golled i Sylvia a'r plant bach, y golled i'r teulu, y golled i'w gyfeillion, y golled i'w gynulleidfa. Cymaint o bobl oedd yn adnabod Rhodri! Mewn rhyw un cylch yn unig y mae y rhan fwyaf ohonom yn troi, ond roedd Rhodri yn troi ei law at bob math o ddiddordebau, ac yn cyfarfod â phob math o wahanol bobl. Gwŷr a oedd a'u bryd ar geir arbenigol, rheilffyrdd, haneswyr y Rhyfel Cartref yn America, caredigion Dwyrain Ewrop, a phob math o amrywiol feysydd, a Rhodri ei hun, yr un mor amryddawn i'w dilyn nhw. Nid gŵr cul ei orwelion oedd Rhodri; ac eto ym maes ei waith bob dydd, yr oedd ei ddymuniad a'i ddylanwad fwyaf.

Roedd pobl yn ffonio i Benygraig yn ystod y misoedd diwethaf hyn, nad oedd Rhodri yn eu hadnabod o gwbl, ond roedden nhw'n ei hadnabod o ac eisiau mynegi eu gwerthfawrogiad. Pobl heb fod efallai ymhlith y mwyaf nodedig yn y gymdeithas, gweddwon unig, mewn oed, yn byw ym mhellteroedd cefn gwlad, yn fwy felly efallai, ar gyfartaledd, na'r ifanc heini llwyddiannus yn y trefi. Ac eto pwy ohonom ni fyddai am anghofio'r cyfryw? Mynd allan o'i ffordd i'w cofio a wnaï Rhodri, ynghyd â phawb arall a fyddai wrando. Gweinï ar eneidiau ynghanol sŵn byddarol seciwlariaeth; nid peth hawdd i'w wneud o gwbl, fel y gwyddai Rhodri ond yn rhy dda.

Sut un oedd Rhodri? Mae'n anodd gwybod lle i ddechrau.

Rhodri hoffus, ddiddrwyg, hwyliog, oedd bob amser a gwên siriol, lawen ar ei wyneb.

Rhodri y cymeriad cadarn, y bersonoliaeth gynnes, ffeind, unigryw.

Rhodri dalentog, a oedd yn ystod ei yrfa wedi treulio amser fel athro, darlithydd, archifydd a darlledydd. Er byrred ei einioes, chyfyngwyd arno fo ddim mymryn yn ei lwybrau.

Rhodri ddewr, llawn ffydd, ddioddefodd ei gystudd a'i salwch yn ddistaw ac yn ddirwgnach, gan ennyn edmygedd, ac yn wir syndod ym mhawb a oedd yn ymweld ag o.

Ni allodd angau du
Ddal Iesu'n gaeth
Ddim hwy na'r trydydd dydd —
Yn rhydd y daeth;
Ni ddeler un o'i blant,
Er mynd i bant y bedd;
Fe'u gwelir ger ei fron
Yn llon eu gwedd.

Deulu annwyl, Sylvia, Aled, Ifan a Trefor, derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf yn eich colled o golli priod a thad caredig ac hefyd yn eich profedigaeth o golli mam a nain dyner hefyd.

JOHN GLYN

a brac ar werth. Croeso i bawb.

Adref o'r ysbyty: Da deall fod Mrs Fflo Jones, Y Bwthyn, Croesywaun, wedi dod adref o'r ysbyty, ac hefyd Ceri Rowlands, Bryn Golau. Dymunwn adferiad iechyd i chi ac i Sharon Owen, 'Refail, sydd wedi torri ei braich.

Cynllun Bugeilio: Fe fydd yna Weinidog yn bresennol yn y lleoedd canlynol:

27 Chwefror, 5.30 — 6.00: Eglwys Sant Iwan; 6 Mawrth, 12.30 — 1.00: Capel Croes-y-waun; 13 Mawrth, 5.30 — 6.00: Capel Bethel; 20 Mawrth, 12.30 — 1.00: Eglwys Sant Iwan; 25 Mawrth (sylwer ar ddydd

Llun), 12.30 — 1.00: Croes-y-waun; 10 Ebrill, 5.30 — 6.00: Capel Bethel. Mae croeso i chwi ddod am sgwrs a phaned. Mae'n agored i bawb i ddod i drin a thrafod pethau mawr a bychain. Edrychwn ymlaen at eich gweld. Am fwy o wybodaeth ffoniwch y Parchg John Gillibrand, ffôn: Caernarfon 5604.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



**CANOLFAN
GARDDIO**
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Ein gŵr gwadd ar 24 Ionawr oedd Mr John H. Hughes, Llanberis, a chroesawyd ef yn gynnes gan y Llywydd, Mr Llew Hughes. Y tro hwn, aethom yn ei gwmni i bentref Penmachno, lle bu Mr Hughes yn brifathro am gyfnod o rai blynyddoedd. Cawsom sgwrs ddifyr ganddo am amryw o ddigwyddiadau'r ardal, a soniodd yn arbennig am un teulu. Roedd iddynt un mab disglair, a gafodd ei addysg mewn ysgol fonedd a choleg yn Lloegr. Ni fu ei yrfa heb drafferthion, ond yn y diwedd daeth i swydd anrhydeddus, ac yn ffrin i frenin Lloegr. Oherwydd fod Mr Hughes yn storïwr tan gamp cawsom fel aelodau bleser mawr o wrando arno. Diolchodd Mrs G. Chick iddo am brynhawn difyr dros ben, ac am ei barodrwydd i ddod i'r Clwb. Mrs Eluned Hughes a Miss Elizabeth Hughes roddodd y baned a'r raffl. Enillydd y raffl oedd Mrs G. Chick.

Trefnwyd egwyl o Bingo ar 7 Chwefror, ond oherwydd y tywydd eithriadol o erwin, ychydig o'r ffyddloniaid arferol a fentrodd allan. Cafwyd ychydig gemau gyda Mrs Enid Price yn galw, ac roedd y baned a gawsom gan Mrs Mair Williams a Miss Megan Davies yn hynod dderbyniol. Hwyl hefyd a ofalodd am y raffl a enillwyd gan Mrs E. Price. **Ysgol Gymuned Cwm y Glo:** Mae diwrnodiau Dwyngwen a Sant Ffolant wedi bod a wyddoch chi beth? Chefais i ddim ond un cerdyn a llawysgrifen y wraig oedd ar hwnnw!

Un da ydy Edward Morus Jones am ganu. Fe brofodd hynny yn y noson o Gawl a Chân gawson ni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Jean Hughes am wneud y cawl. Sylwch mai am wneud y cawl ddwedais i nid am wneud cawll! Noson gofiadwy iawn a thros £70 o elw. Diolch yn fawr.

Cafodd rhieni'r ysgol fudd mawr o ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y mis. Un yn cael gwybodaeth am y drefn yn Ysgol Brynrefail gyda Mr John Grisdale a'r llall yn cael gwybodaeth am Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol gan Mr Phil Mostert. Mae nhw'n gwybod bron cymaint a fi am y peth rŵan. Braf oedd cael rhannu'r nosweithiau efo rhieni Ysgol Tan y Coed, Penisa'r-waun. Gyda llaw, gobeithio fod llais Mr Mostert yn well. Fe gafodd fwy o esgus i weiddi efo'r gêm yng

Nghaerdydd, yn do.

Mae'r fflw wedi bod yn y Cwm ond gobeithio yn arw ei fod o wedi mynd a'n gadael rŵan er mwyn i ni gael dod yn ôl i drefn yn yr ysgol. Tydy hi ddim yn hawdd byw efo hanner y plant a nifer fawr o'u rhieni yn sâl fel cwn. Gobeithio fod pawb wedi gwella.

Diolch i'r drefn fod yr eira wedi dadmer hefyd. Er yr oedd o'n edrych yn ddel iawn tra ar lawr. Mae'n well gen i ei weld o ar yr Wyddfa nac ar Stryd Newydd, Cwm. Cefais ddychryn mawr o weld Anti Margaret yn ei ganol — yn brysur wneud dyn eira i blant Dosbarth y Babanod. Chwarae teg iddi. Tydy hi na nhwtha ddim wedi gweld eira fel eira eleni ers talwm. A dweud y gwir, cefais innau fwynhad mawr o wneud un efo'r plant, hefyd.

Rhaid mynd rŵan i baratoi ar gyfer rhyw bwyllgor neu'i gilydd. Diolch am eich gwrandawriad a hwyl fawr i chi. Ella gwelwn i chi yn y Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi.

Gyda llaw, does na ddim gwirionedd yn y ffaith mai Karen Jones, dosbarth 4, ddaru fwyta y nifer mwya o gremppogau ond mae o yn berffaith wir mai'r bechgyn wnaeth y rhai gorau. Ar fy llw. Cefais flas o gynnyrch pawb a rŵan rhaid i mi fynd ar ddeiet eto. Felly llai o bŷs i mi, plis, Mrs Hughes.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug, nos Fawrth, 7 Chwefror. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr. Daeth dau lythyr i law, un oddi wrth Mrs P. Wright a'r llall oddi wrth Mrs D. Atkins, a thrafodwyd materion yn codi o'r llythyrau. Y mae cyfarfod wedi ei drefnu i 'Undeb y Mamau ar Daith' ar 4 Mawrth, yn yr Hen Ficerdy, Bangor. Cafwyd adroddiad gan Mrs Ransom ar gynnydd ein baner newydd. Cyflwynwyd y wraig wâdd, Mrs Megan Noel-Jones, Cadeirydd, Mudiad 'Social Concern' gan Mrs Enid Taylor. Cafwyd adroddiad manwl gan Mrs Jones am y gwaith mae'r mudiad yn ei wneud, a diolchwyd iddi gan Mrs Dorothy Jones. Y gwesteion oedd Mrs J. Ransom a Mrs E. Taylor, a diolchwyd iddynt gan Mrs B. Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs M. Roberts ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Latham.

Cawl a Chân: Cafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni Edward Morus

Jones a phlant yr ysgol, nos Fawrth, 29 Ionawr, i ddathlu Gŵyl Santes Dwyngwen. Enillwyd y raffls gan — £5: Mr Maldwyn Parry, Snowdon Hotel; jwg gwin gwydr: Donna Williams; gwin: Christopher Rouchy; gwin: Delyth Roberts; tegan meddal: Iestyn Williams; sebonnau: Iestyn Williams; pillow cases: Delyth Roberts; tray toffee: Sera Lynn; talc: Eluned Davies; sebon meddal: Terry Williams; papur ysgrifennu: Mrs Dilys Jones. Diolch i Mrs J. Hughes am ofalu am y cawl, ac i bawb am wneud y noson mor lwyddiannus.

Llongyfarchiadau i Michael, 18 Dôl Afon a Myfanwy, Eirianallt, Waunfawr, ar eu dyweddidiad; ac i Janice a Steven, Fron Heulog ar enedigaeth mab, Leon, brawd bach i

Susy, Drew a Michela. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Mary Elizabeth Williams, 22 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 24 Chefror.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion gan dymuno gwellhad buan i Mrs Elizabeth Evans, Gwylfa, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Annie Hughes, Bryn, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith yn Llanberis, hefyd â theulu Mrs M. J. Roberts (Anti Meri), Llys y Gwynt, Penisa'r-waun.

Diolch: Dymunwn ddiolch i Mr Brian Jones, Bwlch, am ofalu am y menynd, ac i Mr Maldwyn Hughes, Bryn Gro am ei ddosbarthu. Diolch yn fawr.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Hospis yn y Cartref: Ar gais gan Gyngor Cymuned Waunfawr sefydlwyd is-bwyllgor yn y pentref gyda'r nod o godi £500 at gynnal gwasanaeth Hospis yn y Cartref erbyn Pasg 1992. Y pwyllgor yw — Cadeirydd: Ifor Hughes; Ysgrifennydd: Clive James; Is-drysorydd: Deiniol Huws; aelodau eraill: Jean, Sarah, Heather, Bethan, Nia, Eirian a Vera. Y digwyddiadau cyntaf fydd Noson Goffi ar nos lau, 7 Mawrth yn y Festri am 7 o'r gloch. **Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y pregethwyr canlynol yng nghapel y pentref bob Sul am 2 o'r gloch yn ystod mis Mawrth.

3: William Jones; 10: D. Charles Thomas; 17: Gwynfor Williams; 21: S. O. Hughes; 31 (Sul y Pasg): John Owen. Croeso i bawb, hen ac ifanc, o'r newydd neu ail-ymuno, er mwyn ymuno gyda'n gilydd ac addoli Iesu Grist.

Antur Padarn: Ar ran trefnwyr Antur Padarn, diolch yn fawr iawn i'r traean o aelwydydd y pentref a fu'n cymryd rhan yn yr holiadur o anghenion economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yr ardal.

Cydymdeimlwn fel pentref â Mr a Mrs R. Owen, 1 Erw Wen, ar farwolaeth sydyn eu merch Elizabeth, yng Nghaernarfon.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291


AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO Y LLIWIAU PRIODOL

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS



EWCH O
DDOT I DDOT

CORNEL JÔCS

Sut ydych chi'n suo car o Ffrainc i gysgu?

Renault - Reno, hen blant bach, Reno, Reno, Reno, hen blant bach!

Beth ydy hoff gêm crocodeil? Snap!

Sut mae rhywun yn cadw'n oer ar gael pêl-droed?

Sefyll o flaen 'ffan'!!!

Pam oedd y pump ŵy yn cega ar y chweched ŵy?

Am ei fod o'n un drwg!!

Pam mae iâr yn hapus i aros ei thro?

Am ei bod hi wedi hen arfer hefo cyw!!!

Sut mae rhwystro cath rhag gorfedd ar y gwelyau yn y llofft?

Prynu byngalo!!!

Be' ti'n galw dyn a bisged ar ei ben?

Dai Jestif!!

Pa fath o ffrwyth sy' wastad yn tynnu'n groes?

Ba NA! NA!

Ym mhle yn y Beibl y ceir sôn am foduro?

Pan sonnir am 'car dy gymydog'.

Beth sy' a dau ddeg dau o goesau ac sy'n mynd 'Crynsh, crynsh, crynsh'?

Tîm pêl-droed yn bwyta creision!!

Beth sy'n wyn ar y tu allan, gwyrdd y tu mewn ac sy'n neidio?

Bechdan broga!!

Pa fath o gi sy'n hoffi cael bath o leia' chwe gwaith y dydd?

HAMPWDL!!

Beth wyt ti'n galw epa sy'n pwyso 3,000 pwys?

Syr!!!

'Fe es i at y deintydd bore 'ma, meddai Siôn.

'Ydy dy ddant di'n dal i frifo?' gofynnodd yr athrawes.

'Dwn i'm,' atebodd Siôn, 'fe gadwodd y deintydd ol'

Bu rhaid i mi roi'r gorau i'r hen ddawnsio tap 'na. Roeddwn i byth a hefyd yn syrthio i mewn i'r sinc!

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan

LLIWIWCH Y LLUN

gan ddefnyddio'r lliwiau prodol

1 = OREN 2 = PORFFOR
3 = MELYN 4 = GWYRDD


Pwy sy'n cuddio yn y goedwig

Cystadleuaeth Mis Mawrth

Enw.....

Cyfeiriad

Oed.....



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Bentref: Dymunir pob llwyddiant i'r Ael?odau sy'n cystadlu yn Eisteddfod y Cylch a'r Sir yn ystod y mis hwn. Diolchir yn gynnes iawn i'r rhai fu'n eu hyfforddi.

Dyma weithgareddau'r mis — Mawrth 5: noson yng ngofal R. Humphreys; Mawrth 12: Sgwrs gan Alan Wyn Hughes; Mawrth 20: Ymweliad â Chanolfan Hamdden Dwyfor. Mae'r trip i'r Ganolfan ym Mhwlheli wedi'i drefnu ar gyfer nos **Fercher**, 20 Mawrth. Bydd y bws yn cychwyn o Fryn Eglwys am 5.30p.m. ac yn dychwelyd o gwmpas 8.30p.m. Enwau rhag blaen i Ann Paterson, os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau: Pob dymuniad da i Eirian Roberts, Llwyn Derw ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Amranwen a Graham, Gwyddfor, ar enediggaeth merch fach, Lois. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ffion a Mark ar achlysur eu dyweddïad.

Diolch: Dymuna Rhian Price Williams a Rhys ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur eu dyweddïad.

Gwellhad: Da gennym glywed fod Bethan Jones, Cae Corniog wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Anfonir ein cofion at Mrs Dorothy Parrot, hithau'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod chwithau Mrs Percy Williams ar y ffordd i wella, Mrs Neville Abbot, Bryntirion, a Hugh Thomas, Bron y Gaer, hwythau yn yr ysbyty.

Pwyllgor y Neuadd: Nos Wener, 25 Ionawr, cynhaliwyd Noson Santes Dwynwen yn Neuadd yr Eglwys am 6.30p.m. Beirniadwyd y cystadlaethau o dynnu llun, llunio cerdyn, 'collage', llythyr a theisen Dwynwen, gan Mrs Mair Huws, Llanrug. Diolchir yn gynnes iawn iddi am feirniadu mor annwyl, 'roedd gair bach caredig ganddi i bob un cystadleuydd. Ein dioch iddi hefyd am ei rhodd haelionus tuag at Gronfa'r Neuadd Bentref. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr, a'r enillwyr oedd: 1, Wendy Philips; 2, Andrea Paterson; 3, Cathryn Falls. Lois Dafydd enillodd y raffl, sef tun o 'Roses' a'r siâp calon, rhoddedig gan Ceren Jones. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson. Tynnir Clwb Cant Chwefror nos **Fercher**, 27 Chwefror, am 6.30p.m. yn Sycharth.

Y weithgaredd nesaf fydd Noson Gymdeithasol yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, 26 Ebrill, pryd y ceir eitemau gan aelodau'r Urdd. Tynnir y raffl wanwyn ar y noson. Mae'r tocynnau eisoes ar werth gan aelodau'r pwyllgor a chyfeillion o'r pentref — 1,000 ohonynt i gyd!

Y mae holl aelodau'r pwyllgor yn anfon ein cofion cynhesaf at Mr Hugh Williams sydd yn gwella erbyn hyn wedi'i driniaeth yn yr ysbyty. **Profedigaeth:** Daeth sawl ergyn drom i'n pentref yn ystod y Mis Bach. Yn frawychus o sydyn, a hynny o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd, collwyd pedwar o annwyliaid. Onid addas yw'r englyn hwn gan Alun L. Jones i 'Chwefror':

*Corrach yw mis y cawrwynt; — gwêl y brau
Ôl ei ddyrnau amynt;
Mis di-rin, mis dwyreiniwynt
A'i chwa oer ar afiach hynt.*

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Gwyneth Jones a Harri Jones ar farwolaeth sydyn Mr John Gwynfryn Jones, 18 Bryntirion. Yn frawychus o sydyn, ar 10 Chwefror, bu farw Mrs Lizzie Owen, Minffordd, yn 79 mlwydd oed, priod annwyl Mr Idris Owen a mam dyner Gwyneth. Ein cydymdeimlad dyfnaf â chwithau. 11 Chwefror ffarweliwyd ag un o gymeriadau hoffus y fro, sef Mrs Mary Jane Roberts, 5 Llys y Gwynt (Tai Croesion gynt), gwraig y diweddar Cadwaladr. Y mis diwethaf roedd llun ohoni yn yr *Eco* yn dathlu'i phen-blwydd yn 90 oed. Cydymdeimlir yn ddwys â'r teulu oll. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar 17 Chwefror, yn 69 oed, bu farw Dafydd Morris Hughes, 6 Llys y Gwynt. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu yma hefyd.

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf i Mr a Mrs Leslie Larsen a'r teulu oll ar farwolaeth mam Mr Larsen, o 22 Maes Cadnant, Caernarfon, wedi cystudd hir a hithau'n 89 mlwydd oed.

Gobeithio yn wir y daw Mawrth i mewn yn dawelach ac addfwynach, onide?

Eglwys Santes Helen: Dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i'r plwyfolion am y casgliadau a wnaed yn ddiweddar at gronfa Shelter Cymru i gynorthwyo'r di-gartref. Casglwyd £60 ac anfonwyd y siec i Abertawe.

Trwy'r Grawys cynhelir gwasanaeth o Gymun Bendigaid a Myfyrdod byr am 6 o'r gloch bob nos **Fercher**. Taer erfynir am gefnogaeth y plwyfolion i'r gwasanaethau hyn.

Ychydig llai na deufis yn awr sydd gan ddisgyblion yr Ysgol Sul i baratoi

cywaith a dysgu'r Maes Llafur ar gyfer Gŵyl Gorawl Eryri. Cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig a llafar ar ddydd Sul, 21 Ebrill. Pob hwyl ar y gwaith blant.

Ysgol Feithrin: Mae swyddogion pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn dechrau paratoi ar gyfer y flwyddyn 1991-92. Dylai unrhyw riant sy'n dymuno anfon ei blentyn i'r Ysgol Feithrin yn ystod y flwyddyn 1991-92 gysylltu ag Alwena ar Llanberis 870453 cyn diwedd mis Ebrill. Gan mai dim ond 12 o blant gaiff fynychu'r Ysgol byddwn yn falch o glywed gennych mor fuan ag sydd bosibl. Byddwn yn cynnal cyfarfod agored ar ddechrau mis Mai er mwyn penodi swyddogion newydd i'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 1991-92. Mae Mrs Carol Porter wedi ei phenodi fel cynorthwyr i'r athrawes ers diwedd y flwyddyn diwethaf ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i Judith a Carol am y gwaith ardderchog y maent yn ei wneud gyda'r plant.

Ysgol Tan y Coed: Ychydig wythnosau yn ôl gwnaed apêl i ddarllenwyr yr *Eco* am danc pysgod ar gyfer dosbarth Babanod yr ysgol. Y gobaith oedd cael tanc addas i ddal un, neu ddau ar y mwyaf, o bysgod aur. Wel wir, ni chawsom ein siomi, ac yn ddiweddar daeth Mrs Carol Porter i'r ysgol gyda baich mawr. Roedd ein hapêl wedi ei hateb, ac fe gyflwynodd Mrs Porter a Karen glamp o danc pysgod i'r ysgol, ynghyd â'r cyfan sydd ei angen i'w wneud yn addas ar gyfer cadw pysgod dŵr cynnes. Diolch yn fawr iawn i Karen a Mrs Porter am eu caredigrwydd.

Er fod y salwch mawr wedi ein taro unwaith eto, gyda nifer sylweddol o blant yn absennol ar un achlysur, bu prysurdeb mawr yn yr ysgol yn ddiweddar gyda grwpiau o blant dosbarth un a dau yn derbyn cymorth ar y cyfrifiadur A3000 oddi wrth Mr Owen Jones o Uned Gyfrifiadurol Maesincla. Braf iawn yw gweld pa mor gyflym oedd y plant yn dod i ddeall y peiriant, ac anodd iawn fydd dal i fyny â nhw, heb sôn am fod un cam o'u blaenau.

Ar ddau achlysur yn ddiweddar, daeth rhieni Ysgol Tan y Coed, a rhieni ysgol Cwm y Glo at ei gilydd i fynychu gweithgareddau a drefnwyd fin nos. Y cyntaf oedd

sgwrs gan Mr John Grisdale, Brynrefail, i rieni plant safon 4 a fydd yn trosglwyddo yn mis Medi. Y tro yma, cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghwm y Glo, a diolch i'r prifathro, Mr Williams, am ei groeso.

Yr ail achlysur oedd pan ymunodd rhieni Cwm y Glo â ni i wrando ar sgwrs gan Mr Phil Mostert ar Asesu. Yn ystod tymor yr haf, fe asesir plant dosbarth hynaf y Babanod yn statudol am y tro cyntaf. Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa ykmhell o fod yn glir, ac mae'r miri asesu yn poeni athrawon a rhieno. Ysyaeth, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Mostert, ac fe aeth llawer un ohonom adref y noson honno yn teimlo yn well o lawer nag oeddym ar ddechrau'r noson. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Myfanwy Parry am drefnu'r noson, ac i'r cyfeillion am eu cymorth a'u parodrwydd i drefnu paned ar ddiwedd y cyfarfod.

Gair o ddiolch: Dymuna Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli mam annwyl.

Ar y brig: Llongyfarchiadau mawr i Adran Bentref yr Urdd ar ennill y Darian i'r pentref mwyaf llwyddianus yn Eisteddfod Cylch Arfon i rai dan 15 oed, dydd Sadwrn, 23 Chwefror. Diolch arbennig i'r rhai fu'n hyfforddi'r plant.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Diwrnod Cenedlaethol

Dim
Ysmygu



Angen help?
BANGOR
351149

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, **GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref **E. Ll. Parry** M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon **LLANRUG**

Ffôn:
Caernarfon
5754

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: **E.P. Hughes**

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

A minnau wedi cael seibiant a orfodwyd arnaf gan amgylchiadau yr wyf unwaith yn rhagor yn ceisio casglu fy meddyliau at eu gilydd i roddi cyfran yng ngholofn Dinorwig ar gyfer misoedd Chwefror neu ddechrau mis Mawrth.

'Roedd y mab a'r ferch-yng-nghyfraith yn awyddus i mi dreulio'r Nadolig gyda hwy yn Wollaston, Swydd Northampton ar ôl i mi golli'r wraig mor eithriadool o sydyn. Y bwriad gwreiddiol oedd i mi aros yn fan honno am fis, ond bron yn ddieithriad ar ddechrau Ionawr fe ddaw'r fflw i'm poeni. O ganlyniad ni allai'r mab weld fy mod mewn cyflwr priodol i deithio gyda'r trên o Northampton i Fangor, ac felly, fe aeth y mis yn chwe wythnos. Er i mi bwrcasu yr hyn a elwir yn 'Super Saver Monthly Return', am fis yn unig yr oedd hwnnw'n para, ac fe fu raid i mi godi tocyn arall i ddod adre' 'nôl

Er mai newyddion Dinorwig a ddisgwylir gennyf mae'n rhaid cynnwys beth o hanes fy arhosiad dros y ffin yn Lloegr, neu o leiaf y Dwyrain Ganolbarth. 'Roedd yr ysgol yr aiff Andrew, fy nai, iddi yn cynnal eu sesiwn o ganu carolau yn Eglwys Wollaston. Eu harfer yn y gorffennol oedd canu'r carolau yn yr ysgol ei hun, ond fe deimlid fel torri tir newydd y tro hwn. 'Roedd hi'n amlwg fod rhai o'r plant yn ddieithr i awyrgylch capel ac eglwys ac heb fod yn teimlo'n gyfforddus mewn adeilad o'r fath. Gresyn fod rhai rhieni yn ymwrthod â'r cyfrifoldeb i annog eu plant i fyned i le o addoliad. Hyderir, serch hynny, y gwelir datblygu'r dull newydd a all droi allan er lles. Nid oes lle i ddigalondid.

Achlysur arall pur ddiddorol oedd ymweliad a Pantomeim yn Northampton gyda chwmni o Lundain ar y llwyfan. Fe ymdrechwyd i drefnu hyn yn gynnar yr hwyr, er rhoddi cyfle i'r plant fyned i'r ysgolion dyddiol y dydd canlynol. Cyfuniad a gyflwynwyd o 'Robin Hood a'r Plantos yn y Goedwig'. Cofier bod theatrau yn Northampton yn gallu manteisio ar gael cwmnïau Llundain i ddod i gyflwyno eu perfformiadau a chludo'r cyfan oedd yn angenrheidiol. Ar waethaf atyniad y rhaglenni teledu 'roedd y gefnogaeth yn galonogol iawn. Rhan bwysig o fywyd Lloegr yw llwyfannu pantomeim. Pam na all Cymru hithau

addasu'r pantomeim i'w phwrpas ei hun a chyflwyno canu ysgafn Cymreig, ac agweddau ar hanes a thraddodiadau cynhenid ein cenedl? Fe ddichon fod S4C yn gwneud rhyw gymaint o hyn yn barod.

Yr adeg yma o'r flwyddyn mae'r tywydd a phopeth arall yn canfod gwendidau'r natur ddynol. Mae y cyfansoddiad ar ei fan gwanaf i wrthsefyll ymosodiadau gelynyddion iechyd corfforol. Fe welwyd nifer o'n cydfforddion yn cael eu cludo i'r ysbytai lle ceir gweinyddesau a meddygon profiadol i drin y clwyfau oll. Gorchwyl beryglus yw dechrau enwi rhai y daeth anhwylderau i'w rhan, gan bod cymaint na chawsom unrhyw wybodaeth o gwbl amdanynt, ac felly nid o fwiad yr anwybyddir hwy. Mae'r mwyafrif o'r rhai a fu mewn ysbyty adre' 'nôl bellach — rhai fel Mrs Betty Peris Roberts, Mrs A. Dearn, Mrs Medwen Griffith a Mr Andrew Griffith. 'Rwy'n sicr y caniateir i mi gyfeirio at Mr Owen Richard Williams ar sail ei gysylltiad yn y gorffennol â'r Eco, gan mai ef oedd yn gyfrifol am newyddion Dinorwig cyn symud ohonno i fyw i Dai Rhydfadog, Deiniolen. Erys rhai oedranus yn eu cartrefi eu hunain, tra ceir eraill mewn cartrefi nyrsio a sefydliadau hen bobl. Fe werthfawrogi cyfraniad cyfoethog y rhai sy'n treulio eu hamser yn gofalu'n dyner a charedig y rhai ymddiriedwyd i'w gofal. Nid bob amser y cânt y clod sydd ddyledus iddynt am eu hamynedd a'u hymgysegriad. Digon hawdd yw edliw eu bod yn cael cyflog am y gwaith, ond hwy er hynny sy'n cerdded yr 'ail filltir' pan mae eraill o bosibl yn methu cerdded y filltir gyntaf.

Wedi i mi gael cyfres o aeafau cymharol dyner fe ddaeth newid eleni, ac nid ar rannau uchaf'r mynyddoedd yn unig y gwelwyd lliw yr eira. Fe gyrhaeddodd hwnnw hyd at iseldiroedd Ynys Môn, ac fe'n gorfodwyd minnau i glosio mwy at y tân gan fod myned allan yn orchwyl trafferthus.

Ar y gorwel pell dyma Iraq o dan Saddam Hussein yn taflu cymylau tywyll ar ein ffurfafen. Mae'n syn fel mae cymeriad fel hyn yn perthyn i bob cenhedlaeth, ac yn peri pryderon cas i'r gwledydd oll. Ni wyr neb i sicrwydd pryd y tynnir hwy i mewn

i rhyw gyflafan erchyll. Mae'r gwledydd oll o'r Dwyrain a'r Gorllewin yn parhau i ddioddef ar ôl brwydrau cynharach y ganrif, ac yn dyheu am weld heddych yn teyrnasu unwaith yn rhagor. 'Roedd proffwyd i'r Hen Destament yn gweld ymlaen i obaith rhyw ddyfodol lle gwelid yr oen a'r llew yn cyd drigo mewn heddych perffaith. A wireddir hyn mewn byd sydd mor amherffaith? Ar yr wyneb mae bron yn anhygoel. Eto fe erys yr hyder a'r gobaith.

Cyn yr ymddengys y sylwadau hyn mewn print fe fyddwn wedi dathlu a chofio dydd ein nawddsant Dewi. 'Roedd yntau yn dyheu am fyd gwell. **Diolch:** Dymuna Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Mae ei diolch yn arbennig i Ward Ogwen am eu gofal caredig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Llongyfarchiadau i Marian Wyn Jeason (Williams gynt) ar basio rhan gyntaf mewn arholiad 'Byw gyda Thechnoleg' yn Uned Allanol y Brifysgol. Merch ydyw i Mrs Ceridwen a'r diweddar Ifor Williams, gynt o Dŷ Capel Dinorwig (M.C.). Y mae ar hyn o bryd yn Bennaeth Adran Gwyddor Tŷ mewn ysgol yng nghanoldir Lloegr. Dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol.

Eglwys St. Mair: Ar y Sul cyntaf yn y Grawys cyflwynwyd set o lleiniau Cymun i Eglwys St Mair gan Mrs Margaret Williams a'i gŵr, Mr Elis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen, er cof am Mr. R. H. Thomas, Creigle gynt. Fe gysegrwyd y lleiniau gan y Parchg Ganon R. Glyndwr Williams

a oedd hefyd yng ngofal y gwasanaeth. Hoffai'r eglwys ddiolch i'r teulu am eu rhodd werthfawr a defnyddiol.

Tocynnau Mantais Bws: Rhag ofn nad ydych wedi derbyn y wybodaeth, deallwn y bydd y tocynnau hyn yn cael eu dosbarthu yn y Ganolfan ar fore dydd Gwener, 1 Mawrth rhwng 9.30 a 10 o'r gloch. Codir tâl o £2.50 am bob tocyn teithio a ddsberthir.

Rhyfel y Gwlff: A minnau yn dal i obeithio y daw heddych buan i'r rhan yma o'r byd, ni allwn beidio a meddwl am Gwilym Irfon Jones, mab Mrs Betty Jones o Tan y Buarth Ucha sydd yno fel un o'r milwyr. Deallwn i Gwilym gael ei ben-blwydd yn un ar hugain oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddo a mawr obeithiwn y gwelwn ef gartref yn fuan.

Pwyllgor y Ganolfan: Cyfarfu pwyllgor y Ganolfan ar nos Fawrth, 5 Chwefror. Trafodwyd sawl mater oedd yn ymwneud â'r Ganolfan a'r pentref yn gyffredinol. Gan na allai fod yn bresennol, cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyngorydd Dosbarth, Mr Jacob James, ynglŷn â'r materion oedd wedi codi yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Er bod y cyngorau perthnasol yn ymwybodol o anghenion y pentref, teimlwyd mai cyndyn iawn ydynt i weithredu arnynt. Gofynnwyd os yw pentrefi cefn gwlad yn golygu unrhyw beth i'n Cyngorau erbyn hyn? O safbwynt y Ganolfan ei hunt tynnwyd sylw at y gwaith plastro sydd angen ei wneud oddi mewn i'r adeilad yn ogystal a'r angen i ail adeiladu y bwllch sydd yn y wal ar waelod yr iard.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

CEIR ELIDIR

LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Plaid Cymru: Nos Wener, 5 Ebrill, mae cangen Bethel o Blaid Cymru wedi trefnu noson yng nghwmni Dafydd Iwan yng Nghlwb Criced Llandegai. Bydd y noson yn cychwyn am 8p.m. Trefnir bws o Fethel a gellir trefnu i fynd ar y bws drwy gysylltu a Mrs Nan Owen (670763). Mae'r tocynnau ar gael am £3 gan Nan neu Nia (670641).

Diolch: Dymuna Stanley a Mary Griffiths, Tre Gof, Bethel, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Llongyfarchiadau i Bethan Fôn Jones ar ei llwyddiant diweddar yn Eisteddfod Trawsfynydd. Cafodd Bethan gyntaf ar ganu, chwarae'r piano ac ar ganu Cân Werin dan 12 oed.

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Chwefror ymwelodd Cangen Pen-y-groes a'r gangen leol. Cafwyd noson o sgwrs ddifyr iawn wedi ei threfnu gan Mr Richard Lloyd Jones. Ar ddiwedd y noson Mrs Lynda Hughes oedd wedi cael y marciau

uchaf. Diolchwyd i'r cwisfeistr gan Mrs Mair Read. Llongyfarchwyd Mrs Mary Griffiths a'i gŵr, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Aelodau'r pwyllgor oedd wedi paratoi'r lluniaeth ysgafn ac enillwyd y raffl gan Mrs Anne Elis. Gofynnir i'r rhai sy'n bwriadu mynd i'r cinio Gŵyl Ddewi ar 13 Mawrth, roi eu henwau i'r ysgrifennydd, Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn, mor fuan â phosibl.

Clwb y Rhos: Nos Lun, 11 Chwefror, cafwyd noson arbennig yng Nghlwb y Rhos i drafod dyfodol y Clwb. Mewn cyfarfod niferus a brwdfrydig penderfynwyd gwneud rhai newidiadau i'r trefniadau. O hyn ymlaen penderfynwyd sefydlu pwyllgor yn flynyddol i drefnu rhaglen y Clwb a hefyd penderfynwyd ymgyrchu i gael aelodau newydd erbyn tymor 91/92. Bydd y tymor presennol yn dod i ben gyda swper blynyddol yn Y Stablau, Llanwnda, nos Wener, 22 Mawrth.

Llongyfarchiadau: Dydd Marth, 5 Mawrth, bydd Huw Williams, Cae Gwyn, yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau iddo.



Y Clwb Ieuentid: nos Fawrth, 22 Ionawr, bu dau dîm o Glwb Ieuentid Bethel yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cwis Clybiau Ieuentid Arfon. Daeth y ddau dîm yn fuddugol gan ddangos gwybodaeth each am hanes, daearyddiaeth, Cymru, chwaraeon, teledu, ffilmiau a cherddoriaeth boblogaidd. Bydd dau dîm Bethel yn cynrychioli Arfon yng nghystadleuthau Gwynedd yn y rownd nesaf. Rodney Williams, Irfon

Price, Gethin Jones a Llion Tudur Jones oedd yn y tîm hŷn (16-19 oed) a Sian Jones, Lliwen Jones, Gavin Jones a Iolo Price oedd yn y tîm iau (13-16 oed). Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i'r ddau dîm.

Nos Fawrth, 19 Chwefror, daeth tîm dawnsio disgo Clwb Bethel yn fuddugol yng nghystadleuaeth dawnsio disgo dan 16 oed Arfon yn y Dôl. Llongyfarchiadau i'r dawnsiwr Lisa, Faye, Bethan, Llinos, Sioned a Nia.

DATHLU PRIODAS AUR



Priodas Aur: Nid digwyddiad cyffredin iawn ydy dathlu Priodas Aur



ond ym Methel mae dau deulu wedi dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Ar 1 Chwefror roedd Mr a Mrs Griffiths, Tre Gof yn dathlu eu Priodas Aur. Dydd Gwener, 1 Mawrth bydd Mr a Mrs Christenson, Ty Capel yn dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau deulu yn eu dathliadau.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Cant Ysgol Dolbadarn.

Enillwyr mis Chwefror: £25, M. W. Thomas, Birmingham House, Stryd Goodman, Llanberis (138); £15, Meirion Ll. Price, 4 Green Terr., Deiniolen (036); £10, Clara Allsup, Stryd Ceunant, Llanberis (143).

Dechrau Canu, Dechrau Canmol: Bydd BBC Cymru yn recordio y rhaglen hon yng Nghapel Coch, Llanberis, nos Fercher, 10 Ebrill, am 7 o'r gloch. Croeso i holl gantorion bro'r Eco i ymuno yn y darllediad. Ceir rhagor o fanylion am y noson ymhellach ymlaen ar bosteri ac yn y wasg leol. Dewch yn llw i'r recordiad i roi'r fro ar fap Cymru.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Eirlys Jones, Ger-y-Llyn, Maes Padarn, sydd wedi cael llawdriniaeth ac sydd yn yr ysbyty ers rhai wythnosau erbyn hyn.

Diolchiadau:

Dymuna Geraint Thomas, 8 Rock Terr., Llanberis, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a phawb arall am y llw o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Gareth Moris, Oakfield, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llw o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un-ar-hugain oed ar 1 Chwefror.

Dymuna Jason Jones, 34 Stryd Newton, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd pan yr oedd yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Neil Owen, 9 Snowdon St., Llanberis, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a phawb arall am y llw o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Marc (Jiws), 12 Coed y Glyn, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed ar 8 Chwefror.

BRIGÂD ST. IOAN

Canlyniadau Arholiadau 1990.

Cwrs Cymorth Mewn Argyfwng: Mary Lynn Carr, Iona Jones, Nia Wyn Jones, Alwena Hughes Jones,

Stanley W. Griffiths, G. A. Owen, Dylan Parry, Trystan Thomas.

Arholiadau'r 'Cadets' — Rhwystro a Diffodd Tân: Owen Tudur Davies, R. Stephen Edwards, Aled W. Hughes, Jason B. Jones, Euron Thomas.

Gwybod am y Mudiad: S. Elaine Bee, Sandra Nisbet, Carys M. Parry, Iona Vaughan, Rhian Thomas, Derfel Owen, Owen T. Davies, R. Stephen Edwards, Aled W. Hughes, Jason B. Jones, Euron Thomas. **Gofal am Blant:** Elaine Bee, Sandra Nisbet, Carys W. Parry, Iona Vaughan, Rhian Thomas, Angela Willis.

Os oes gan unrhyw un rhwng 9 a 15 oed ddiddordeb mewn ymuno â'r 'Cadets' galwch yng Nghapel Coch, nos Fercher, rhwng 6 a 7 o'r gloch. Bydd Dylan Parry yno ac yn falch o'ch gweld.

Llongyfarchion i Linda a Nigel ar enedigaeth mab, Iwan Wyn, brawd bach i Caryl, ac ŵyr i Beryl a Gordon, a Rhiannon a Dennis, Caernarfon — ac i Enid, 56 Maes Padarn ar fod yn hen nain am y deuddegfed tro.

Diolch: Dymuna Joan a Dafydd, 1 Stryd Tomos, ddiolch i bawb am y llw anrhegion a chardiau a anfonwyd i Lliwen yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar. Diolch hefyd am yr holl garedigrwydd tuag at Llinos.

Dymuna Mrs Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ystod y Nadolig, ac ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch arbennig i staff Ward Prysor, Cartref Plas y Bryn, Bontnewydd, Dr Parry a Nyrs Beth, a chriw yr ambiwlans am eu caredigrwydd.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon.

Genedigaeth: Dymuniadau gorau i Elfyn a Bethan ar enedigaeth merch fach. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arthur Williams ar fod yn daid ac yn nain unwaith eto.

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

AR WERTH
RHEWGELL GIST — £10.
Ffôn: Waunfawr 200.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ac addysgiadol am Arlunio gan Frank Green yng nghyfarfod olaf y gangen. Roeddem yn falch o groesawu aelodau newydd i'r ardal ac i'r gangen atom y tro yma. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mair Huws, Glascoed. Enillydd y raffl oedd Nan Humphreys, Pan y Bryngwyn. Enillwyr y Clwb Cant am fis Chwefror oedd: 1, Geraint Parry, Bro Dawel; 2, Meinwen Lloyd, Afallon.

Bydd aelodau o ganghennau eraill yr ardal yn ymuno â ni i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar nos Wener, 1 Mawrth, ac edrychwn ymlaen at noson ddifyr. **Bedydd:** Yn ystod oedfa yng Nghapel Pontrhythallt fore Sul, 17 Chwefror, bedyddiwyd Ffion Meleri, plentyn Dwynwen a Steven Owen, Porthaethwy. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Morris a'r organyddes oedd Mrs Mair Huws. Dymuna'r teulu ddiolch am y gwasanaeth hyfryd.

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs G. Griffiths a Miss E. Parry, 17 Hafan Elan, sydd oherwydd gwaeledd yn aros dros dro yn Manceinion. Dymunir adferiad iechyd buan iddynt.

Diolch: Dymuna Joan Maxwell, Noddfa, a theulu'r diweddar Jim Maxwell, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli priod a brawd annwyl. Diolch arbennig i'r gweinyddesau lleol, y meddygon a'r Parchedigion John Morris, Gwynfor Williams, W. O. Roberts a John Pritchard. Diolch hefyd i Beth a Gwilym Jones a fu'n ffrindiau ffyddlon iddo ar hyd ei waeledd, ac i Myrddin Pritchard am drefniadau'r angladd. Derbyniwyd rhoddion o £265 tuag at Gronfa'r Gweinyddesau Lleol.

Gwellhad buan: Dymunir adferiad iechyd i Mr Inigo Jones, Eilionwy, yn dilyn triniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

Y Gymdeithas Undebol: Y Parchg I. Jones Owen, Caernarfon oedd y siaradwr yng nghyfarfod nos Fawrth, 19 Chwefror — 'Hiwmor' oedd ei destun. Llywyddwyd gan Mr Emrys Owen, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan y Parchg John Morris. Mewn cyfarfod blaenorol fe groesawyd y Parchg John Gillibrand i roi sgwrs a'r

Llywydd oedd y Parchg John Morris, gyda Mr Myrddin Jones yn rhoi diolch. Bydd swper i ddathlu Gŵyl Ddewi ar 5 Mawrth, yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, gyda Miss Mary Williams, Tregarth (gynt o Tanycoed) yn wraig wâdd.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gynradd gyda Miss Phyllis Ellis yn llywyddu. Er gwaetha'r tywydd oer a'r fflw, roedd digon o aelodau yn bresennol i wneud dau dîm ar gyfer cwis. Arwel Jones oedd y cwis feistr ac fel arfer roedd y noson yn un hwyliog iawn. Diolchwyd iddo gan Mrs Olwen Llewelyn. Rhoddwyd y te gan Mrs Myfanwy Parry, Miss Phyllis Ellis, Mrs Bethanne Williams, Mrs Nan Humphreys a Mrs Meryl Green, a diolchwyd iddynt gan Miss Megan Humphreys. Cofiwch mai y gangen fydd yn rhedeg y caffî yn Eisteddfod yr Udd yn Ysgol Brynrefail, ddydd Sadwrn, 2 Mawrth. Apeliwn am i bob un o'r aelodau gyfrannu trwy gynnig eu gwasanaeth yn gweini neu wneud cacennau neu frechdanau a'u hanfon i'r ysgol fore'r Eisteddfod. Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth, pan fyddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn gwledda yng nghwmni 'Galw'. Enwau, ac arian, i Mrs Heulwen Evans, neu Miss Mary Roberts, erbyn 4 Mawrth.

MERCHED Y WAWR LLANRUG

Nos Fawrth, Mawrth 12, 1991
yn Neuadd yr Ysgol
am 7.30 o'r gloch

DETHLIR

GŴYL DDEWI

gyda lluniaeth gan 'Galw', ac
eitemau o Frethyn Cartref.

Enwau i:

Mrs Heulwen Evans, 872497;
Olwen Huws, Caernarfon 4839,
neu Margaret Jones yn y Co-op.
Erbyn 5 Mawrth

Ysgol Gynradd: Hyfrydwch yw cael mynegi ein llawenydd wrth longyfarch Miss Amranwen Lynch ar enedigaeth Lois Angharad ar fore gwyn o Chwefror.

Daeth Iwan Griffith, safon 4, yn ail mewn cystadleuaeth gymnasteg i ganolfannau hamdden, yng



Nicola, Iwan ac Eryl (blaen) a Justine a Sarah a fu'n cynrychioli Canolfan Hamdden Arfon mewn cystadlaethau gymnasteg yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Mae stori Iwan a ddaeth yn ail yn y cystadlaethau unigol ar y dudalen flaen.

Nghaerdydd. Roedd yn cynrychioli Canolfan Arfon, a chafodd ei wobrwyo â medal arian. Llongyfarchiadau Iwan.

Llongyfarchiadau hefyd i Jacqueline Gibbins, safon 4, ar ennill anrhydedd Gradd 4 piano. Cafodd gymeryd rhan yng nghyngerdd y Bwrdd Cerdd Brenhinol ym Mangor yn ddiweddar.

Cymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, nos Fercher, 23 Ionawr, gyda Mr Myrddin Williams yn llywyddu. Cafwyd noson o adloniant gan Barti Clychau'r Grug o dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths. Diolchwyd gan Mrs W. O. Roberts. Paratowyd lluniaeth i'r parti gan aelodau o'r gymdeithas a diolchwyd ar ran y parti gan Mrs Menna Williams. Nos Fercher, 6 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod arall o'r gymdeithas. Roedd yn noson oer iawn, ond fe ddaeth rhai aelodau dewr i wrando ar Mr Arwel Jones, Penisa'rwaun yn chwarae tapiau o ganeuon Hogia'r Wyddfa ac olrhain eu hanes. Llywydd y noson oedd Mr Myrddin Williams. Diolchwyd gan Mrs Myfi Roberts. Paratowyd paned

gan Mrs J. M. Jones a Mrs N. Lovatt, a diolchwyd iddynt gan Mr J. W. Owen.

Clwb leuenctid: Llongyfarchiadau i Sophie Evans ar ei llwyddiant yn y cystadlaethau Dawnsio Disgo a gynhaliwyd yn y Dome, ac yng Nghricieth. Bydd Sophie yn cystadlu yng nghystadleuaeth drwy Gymru yn Llanfair ym Mualt ac yn y Drenewydd — dymunwn pob llwyddiant iddi. Er nad aeth y tîm dawnsio disgo ymlaen i'r rowndiau nesaf dymunwn eu llongyfarch am gystadlu yng nghystadleuaethau Arfon a Chymdeithas Clybiau leuenctid Cymry yn y Dome. Yn anffodus, nos Lun diwethaf torodd lladron i mewn i gaban y Clwb y tu allan i Ysgol Brynrefail ac mae dwy deledu lliw 14" (un Matsui ac un GEC) wedi eu dwyn yn ogystal a chwaraewr casetiau trydan — mae'n golled o dros £200 i'r Clwb ac os oes gan unrhyw un wybodaeth a all helpu i gael yr offer yn ôl byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Er mwyn codi arian tuag at y Clwb 'rydym yn cynnal **Noson Goffi gyda Sêl Sborion** yn yr Institiwt, nos Iau, 7 Mawrth, am 6 o'r gloch. Byddwn yn falch iawn o'ch cefnogaeth.

TAN Y COED

Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 870276

Newid aelwyd: Ar ddechrau'r mis symudodd Miss Nance Williams o Cartref, Tai Trefor, i fyw i Lanrug. Bu Miss Williams (Anti Nanse) a'i theulu yma yn Nhan y Coed am lawer o flynyddoedd. Bydd ei chymdogion yn colli ei chyfeillgarwch. Erbyn hyn mae Miss Williams wedi ymgartrefu yn 3 Cefn Elan, Llanrug. Pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd.

Pen-blwydd: Ar 9 Chwefror dathlodd Annwen Parry, Ael y Bryn ei phen-blwydd yn ddeunaw. Carai Annwen ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

Priodas: Dydd Sadwrn, 16 Chwefror, priodwyd Bethan, merch hynaf Mr a Mrs John Parry, Ael y Bryn, â Dylan, mab Mr a Mrs Dafydd Williams, 9 Bro Rhos, Bethel. Pob lwc i'r ddau yn eu cartref, Glanfa, Pontrhythallt.

BRYN (B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Nodion o Dir Nippon

Dieithr iawn yw 'scenario' bywyd yng ngwlad y Nippon (Siapan) ond mae gen i gysylltiad â nai, o gymoedd y De, sy'n diwtor crwydrol rŵan tua Tokyo. Cefais lythyr Saesneg ganddo tua'r Gwyliau yn rhoi portread pur 'smala o fywyd bob dydd yn y gymdeithas. Tybiwn mai purion beth fuasai rhannu fy moddhad gydag eraill o fro'r Eco. Fel hyn y mae'n geirio:

'Nippon yn galw: â bwn del o fyfyrion ar y stint dyflwydd tiwtor crwydrol mewn treflan Inage, rhyw 20km i'r de o Tokyo, sy'n dŷ gwydr chwyslyd yn yr haf, gyda'r cicados trystfawr yn sgrechian a gwrchynnu trydan yn nofiant di-ddiwedd y nos gwresbwys. Yr hydref fel teiffwn yn eich gwannu i'r mēr a'r gaeaf mewn hofelau o wres-paraffin, lle daw'r Nadolig, fel ymhobman arall, ond gwaeth, heb gred, heb deimlad, heb fwydo, heb gariad — felly pysgod amrwd a gwin reis i'r boi yma, y Nadolig eleni. Hei-ho!

Gwaith, neu yr hyn a gyflawnaf fel gwaith, rwy'n ei joio. Trempyn y 'sgoldai fel Bela Lugosi yn wrjo ei hun i unrhyw ysgol sy'n barod i'w swcro. O! mor symol yw penyd y tiwtor ysbeidiol.

Fforcio y bwyd Siapaneaidd di-ruddin i wynebau digyffro a giglo'r genod; sglaffio fel gwylain gorffwyll uwch trawiad dyfroedd harbwr ar longau goludog.

Torrir ar felys-gyntun y bore gan feniau gyda'u propaganda jinglddwreiniol... Wele hendaidd y siwt salari a'i gymar o feistres-mewn-mini yn ei sbeics stileto (yn ei hugeiniau) yn y siop 24-awr tua hanner awr 'di hanner nos. Golwg diflas arni; cipia rhyw fynsen neu ddwy, fel y crwydrant o gwmpas; a minnau yno am fy nhrydydd damaid o sgoff mewn tridiau — syll ar y byd â llygaid celyd.

Dywed hen Jap wrthyf: Fe'i cipiwyd yn filwr ugain oed gan yr Aussies a'i gadw mewn gwersyll POW yn Oz. Roedd arno ofn drwy'i dîn ag allan, am fod cadfridogion Jap wedi eu rhybuddio, pe'i cipid gan y gelyn, fe'i bwyteid; ond cawsai y carcharor ei fowlen reis, neu beth bynnag, bob dydd â llonydd i'w fwyta. 'Nawr dywed ei fod yn rhyw led-gredu bod y cadfridogion yn gelwyddog — 50 miliwn — ch'in deall, 50 miliwn o Sineaid a laddwyd gan y Japs, ac ni wyddent, gan na ddywedwyd dim oll wrthynt. Cydymffurfio mae'r Japs i'r norm heb amau dim, na holi eu hunain. Gwrthodant chwilio eu gorffennol, na theimlo'n edifar, na disgyn ar fai, na theimlo unrhyw gywilydd am orffennol o drais milwrol. Pobl hunanol, ni-a-nhw, meddir; a beth am hyn: dyn yn cyflawni hunan-laddiad trwy ddeif dan olwynion y metro-boreol ac yn naturiol atal taith y peiriant am ychydig funudau, felly mae'r teithwyr goddefol yn hawlio arian gollwyd, trwy oriau prin y swyddfa, gan deulu y lleiddiad.

Synnech pe gwelech rif y genod a gadd driniaeth gosmetig i'w llygaid neu gyfyd eu hamrannau â thâp cosmetig i efelychu'r 'Western

Look'; nid genod ariannog yn unig ond genod siopau ac ysgol hefyd.

Cymru? Ni chlywyd amdani 'lly map allan, neu llawer cynt, cogio mai Gwyddel wyf. Clywodd pawb am yr Iwerddon a phawb yn hoff ohoni — gwell na England siwr... Safon y Saesneg-pidgin ar y gorau, heblaw am ambell i hen diwtor Saesneg o Nip sy'n moesymgrymu i'm stafell i chwilio am gopi o *Descartes* i lyfnhau y rafflins. Mae un go dda fyddai'n ei drwytho efo sbel o ergydion Dylan Thomas a Joyce ac mae'n talu i bob golwg — ond sut y gellwch wybod a hwythau dim on yn sgwatio a gwenu a gwrando (gobeithio).

Y Karaoke amlwg, tafarnau respectabl a fynyichir gan wŷr salari (enw cyfogledd am bobl busnes yma) yn heidio, ar ôl y swyddfa am slych a'u diddanu gan genod geisha. Ymrafaeliant am gael swancio ar lwyfan byr a chanu i'r meic y 'pops' anwedus a gyfeilir â fideos a thirluniau. Yn llwythog o saké, ymdaflais innau yn llafurus trwy y 'Green, green grass of home' unwaith; gwell ei anghofio ac fe'i gadawn ar hynny.

Golau dydd yn agor yma am 4.30 a.m., sy'n sioc i'r system 'rôl cefnu ar yr encil ar ôl gwaith yn yr oriau mân; slap gordd o heulwen sur rhwng y llygaid.

Dos ar y metro, ar y trênn ola' adra, ac fe weli gerbyd dan sang o wŷr salari, yn cynnal y conglaui, yn feddw-dwll hyd yr eiliau, rhai gyda gwaed yn treiglo ar eu hwynebau alcifferol, gafwyd mewn gwrthdrawiad ag aels yn y stryd, lle trawsant y tarmac, eraill yn blingo'r balogau i chwistrellu hyd y trênn, heb neb yn dal sylw o gwbl: pawb yn gwenu'n annynol lle syrthient fel sachau. Golygfa annhygoel — gwna rhai hyn bob nos — diwrnod o ymgreinio gwasaid yn y swyddfa ac yna i ffwrdd â nhw, gyda'u briffesys twt, pawb yn eu

siwtiau glastywyll â sbectol potjam, i gael eu dogn parlys a dianc dros dro i gwmniaeth glyd y Karaoke.

Yng Nghymru, dychmygwch reid-drên efo llond cerbyd o lager-loi ac fe gaech syrffed, ddyn, ond yma dim sibwrdd, dim siw na miw. Cannoedd fel sachau dan y parlys ar y trênn dwaetha' adra â'r wên sffincs ar bob gwep, heb yngan gair.

'Nawr, wele, y gaeaf a ddaw fel y chwyth y teiffwn olaf ei blwc; rhydd y meicrosgert le i'r minisgert a gwena Nippon ei rawd i'r tymor olaf; gwena'r gwŷr salari wên Siapaneaidd ar y trênn olaf adra... bob nos. Gwenwn ninnau wên

Nippon annehongliadwy arnoch a cholledig ydym. Ar goll yn ein peiriant ein hunain. Gwisgwn grysau-T 'Snowmen' a sglaffio donuts mewn paced 'Of course I'm so happy'. Mae'r gaeaf yn dod a'r gaeaf a ddaw. Nid maly awyr ydwyf — mwynhaf yr arwahanrwydd a phortreadu dan fol Siapan yn unig.

Mae'n chwith imi am Barcelona; am onestrwydd eu hanonestrwydd: fe wyddech ple safach gyda'r Sbaenwyr.

R. GERAINT OWEN

(Troswyd i'r Gymraeg gan R. Williams, Llain Gwta).

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, ddiolch i berthnasau a chyfeillion am eu caredigrwydd yn dilyn y driniaeth lawfeddygol a gafodd yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, 18 Chwefror, bu aelodau'r gangen ar ymweliad ag Oriel Eryri, Llanberis, i weld arddangosfa o waith nifer o aelodau Sefydliad y Merched oedd yn adlewyrchu gwaith a chyfraniad y mudiad yng Nghymru dros dri chwarter canrif. Yn dilyn cafwyd lluniaueth yng Ngwesty Gwynedd. Dethlir Gŵyl Ddewi â chinio yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, nos Wener, 1 Mawrth. Y gŵr gwadd fydd Mr Arwel Jones, Penisa'rwaun.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

**43 Glanffynnon
LLANRUG**

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

MICI'N GWIREDDU BREUDDWYDION

Yn breuddwydio am gusan gan eich hoff ganwr pop, neu wisgo'n hardd ar gyfer rhyw ymddangosiad hudolus? Neu efallai eich bod yn deip mwy anturus!

Caiff breuddwydwyr ardal Eco'r Wyddfa gyfle efallai i wireddu eu breuddwydion mewn cyfres newydd 'Fe Hoffwn I' fydd yn cael recordio yn fuan ar gyfer S.I.C.

Y perfformiwr poblogaidd Mici Plwm fydd cyflwynydd y gyfres a bydd 'Fe Hoffwn I' yn arbennig i'r rhai hynny sydd ag uchelgais arbennig mewn bywyd.

'Rhanwch eich breuddwydion â mi a does wybod beth â ddigwyddith,' meddai Mici.

Mae Cwmni'r Castell o Fae Colwyn, y cwmni sy'n cynhyrchu'r gyfres, eisoes wedi derbyn nifer o geisiadau chwilfrydig ond yn ôl y cynhyrchydd Elwyn Vaughan Williams, tydi hi ddim yn rhy hwyr i yrru'r breuddwydion atynt. Ac er i rai, efallai, deimlo fod eu breuddwyd yn annhebygol o gael ei wireddu, cyngor y cwmni yw 'peidiwch ag oedi — gyrrwch 'nawr'.

'Gallwn wireddu breuddwydion beth bynnag yw'r anhawster,' meddai Elwyn.

Fe ddylid anfon eich llythyrau at:

**Mici Plwm
'Fe Hoffwn I'
Cwmni'r Castell
1 Ffordd Coed Pella
Bae Colwyn, Clwyd.**

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

**FIDEO
FIDEO
FIDEO**

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

**JOHN BLIGHT
LLANBERIS**

872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

CAWELL O FARDDONIAETH FY NHAD GLAN RHYDDALLT

Y Fam a'i Baban

Eiliw'r lloer sy'n siglo'r lli — yw y fam
Difwlch gylch ei babi;
Ac fel mae'r dwfr yn delwi
Y deil ei wên ei delw hi.

I Gofio Elen

O fedd obry, na fydd ddibris — o lwch
Y ferch lân uchelbris,
Yn dy rô mae'n huno is
Elen bur o Lanberis.

Tri William yn Priodi Tair Elin

*Yn 1945 bu priodas fawr yn Llanddeiniolen
pan briodwyd William Morris, y Gof, ac
Elin, a dau William gyda dwy Elin arall.*

Tri William a'u tair Elin — a unwyd
Yn annwyl rhag drycin:
A phriodas anghyffredin,
Ni fu ball na gwall y gwin.

'Don' Bournemouth

Ci llon ydyw Don, yn denu — ei feistr
A'i foes yn ein synnu;
Hawlia'r tân a gwylia'r tŷ,
Enwog, talog y teulu.

Carlo

Un caredig yw, rhaid credu — hyfwyn
Nid cyfoeth a chwynu;
Bydd yn ddel dawl gi du
O chaiff asgwrn a chysgu.

Yr Eiliwr

Yn ddwys beunydd sebona — ŵr hynod
A'r wyneb a eillia;
Nodio'n wyl, sbwng wedyn, a
Powdwr neis, 'Pwy di'r nesa'?

Beth Gymerwch?

Nid wyf yn hoff o goffi — na choco
Na chacan, na jelly;
Bara gwyn, hyn fydd heini'
A'r enllyn yw menyfyn i mi.

Iâr yn Dodwy

Dedwydd yw iâr sy'n dodwy
A da'r iâr sy'n deor ŵy,
Nid un ŵy a ddodwya
Ŵy o hyd ar hyd yr ha'.

Y Sgwll

Cusanu'r bur ar ei boch
A rhoi pancan i'r pencoch.

Evan a Mari

Mae Mari'n ddynes dduwiol
Ond Evan ydyw'r diafol;
Mae bran a chlomen dan 'run to
Yn taro'n annaturiol.

Un Misi

Hefo hadog fe'i hudwyd
I fetio bawb am fyta bwyd.

Bob Owen Croesor

*Enillodd Bob Owen ddwy bunt yn yr
Eisteddfod Genedlaethol yn 1941.*

Byw bywiog yw Bob Owen — a'i allu
Enillodd ddwy sofrin;
Hwyl i'w glôd a'i heulog lôn,
Hen frathwr o Lanfrothen.

Taid i Chwech

Gu fenaidd pe gofynnech — bwy ydwyf
Heb oedi gair gawsech:
O holi f'ateb welech —
'Tad i chwi, ond taid i chwech!'

Chwist Drive

O'r Tad! Beth ddwedai'r tadau — a oes
drwg
Mewn Chwist Drive i foesau?
Nid wyth, na phedwar, na dau,
Ardal sy'n chwarae cardiau!

DAN FLEW EIN LLYGAID

hefo'r LLYGAD FACH GRAFF WAETH GEN I!

Selsig blas garlleg a chyri ffa cymysg. Ym, ym! Bendigedig!
Mewn Cymraeg salw fy mhobl i, blincin grêt, lyfli ie. Spaghetti
bolognese. O! mae'r enw yn ddigon onid ydyw. Swn llewod
yn eich 'stumog; dŵr yn llifo o'ch dannedd? Ie'n sicr.
Channelloni stwffedig; cig oen Cymreig sy'n haeddu ei le ar
y ford yn ein gwestai er waethaf ei anwybyddu gan amryw byd
o'n gwestai a pheri i incwm amaethwyr cefn gwlad; amaethwyr
sy'n gefn da i economi Cymru fynd â'u pennau i'w gilydd.
Lasgane verdi? Cawl Cennin? Llymru? Pwdin wyau, tarten
'fala, eirin mair, mwyar duon a hufen trwchus hyd nes y bydd
llyg'id pobl drws nesa' bron â disgyn o'u pennau o'i weld ar
ford y gegin. Ie, bwyd sy'n ddigon i dynnu dŵr o'ch dannedd,
sy'n peri i chwi wanhau o gwmpas pob penglin. Bwyd. Ond
meddylwch, mewn difri' calon, pa mor ffodus mae hi arnom
ni — beth petae ni heb y rhain i gyd yn ein cartrefi, gwestai
a'n ciaffis . . .?

'Does dim byd sy'n
wirioneddol berffaith ebe un hen
air; does wynfyd heb adfyd. Un
hawdd rhyngu ei fodd fel person
ydw'i; cas gennyf giaffi gwag ac
mae'n iawn i minnau gael ista yn
fy hoff sedd wrth y ffenest er
mwyn cael gwell golwg ar y byd

a'r betws. Y nhw a'u lasgane
verdi, cawl cennin a'u ffa cymysg.
Dydy'r pobl sy' piau'r ciaffis yn
croesawu rhai fel myfi. Gallaf ista
ar fy nhin yma am oriau. Does
dim rhaid deud dim byd.

Ista gan wybod fod croeso imi
danio sigarét ar ôl sigarét a
chwythu'r mwg yn gymylau
duon i lyg'id, ffroenau a
chlustiau y rhai sy'n byta yn y
ciaffi. Ni fynn y perchennog fel
arall. Nid yw'n gwahardd imi
smocio oherwydd fe osodwyd
blychau llwch sigarennau ar
ganol pob bwrdd, a thu ôl i'r
cownter-archebu-bwyd y mae
rhesi ar resi o bacedi ffags. Rhaid
cefnogi'r Llywodraeth Ganolog
yn Lloegr welwch chwi a dal ati
hefo'r hen arferiad o fygu pawb
a phopeth, o gi anwes i wreigan
ffroenau-tenau. Lasgane verdi?
Ffag arall, mêt. Un bach.
Dewadd annwyl mi ddyla fod 'na
simdda fawr yng nghanol to y
ciaffi 'ma. Beth ydy' hwn'na â'i
heglau fel pinnau yn yr awyr?
Pwdd Harriet Lôn Lwyd? Ia
hefyd, wedi ei phugio hi? Wel,
rigor mortis. Diffyg ocsigen? Na,
y darten fwyar duon fytodd o'n
slei bach. Am a wn i ynte. Wel,
dydy nhw ddim yn gwerthu
silindrau ocsigen a ballu yma nac
unrhyw offer anadlu yn nac
ydynt. Llusgwch yr hen gi 'na
allan wir ddyn. Mae'i goesa' fo'n
drewi yn'tydynt? Diolch yn glep.
Thenciw big tw iw.

PRYDER Y CARAFANAU

Apelio i Etholwyr Gwynedd

Yr ydym yn pryderu fod Cynllun
Fframwaith Gwynedd yn gwneud i
ffwrdd a'r gwaharddiad llwyr yn
erbyn mwy o garafanau sefydlog.

Fe osodwyd y gwaharddiad yma
drwy Wynedd yn 1978 pan ddaeth
yn amlwg fod y cynnydd yn nifer y
carafanau sefydlog yn niweidiol. Y
mae y Cynllun Fframwaith yn
pwysleisio y pwysigrwydd i
dwristiaeth o 'ddiogelu harddwch
naturiol' ein Sir, ond yr un pryd y
mae yn ail gychwyn y drefn sydd,
o brofiad, yn sicr o'i andwyo.

Pe dderbynir y polisi newydd yma
gan yr Ysgrifennydd Gwladol
byddwn yn ddios yn gweld mwy o
garafanau sefydlog a meysydd
mwy drwy Wynedd.

Gofynnwn am eich cefnogaeth
— a chefnogaeth eich cyfeillion —
i warchod harddwch naturiol ac
ansawdd byw ein cefn gwlad drwy
ysgrifennu at yr Ysgrifennydd
Gwladol, Y Swyddfa Gymreig,
Caerdydd, a gofyn iddo ail osod y
gwaharddiad yn erbyn mwy o

garafanau sefydlog.

Yn gywir iawn,

Dr. J. B. Hughes (Cadeirydd)
Dilys J. Jones (Ysgrifennydd)
Cymdeithas Bro Goronwy, Trigolion
Benllech a'r Cylch.
Ymholiadau: Tynyngogl 852214

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Cydymdeimlwn â Mrs Olwen Jones,
Y Garth, ar golli ei chwaer. Hefyd â
theulu'r ddiweddar Mrs Jennie Jones,
Tŷ Uchaf gynt. Cynhaliwyd
cynhebrwng y diweddar Mr Francis
Guy yng Nghapel Ceunant am 1 o'r
gloch pnawn Mercher, 20 Chwefror,
ac yna ym mynwent Llanrug.
Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan
y Gweinidog, y Parchg John Morris a'r
Parchg John Pritchard, Llangefni. Cyd-
ymdeimlwn â'r teulu oll yn eu
profedigaeth.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
Am holl anghenion eich offer nwy

FFLAM ERYRI

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

Gwasanaeth 24 awr

Geraint Fôn Williams Penmaenmawr 622422

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

CHWILOTA

GWASANAETH CLADDU

HANESYDDOL



Yn ystod wythnosau olaf Ebrill, 1873, claddwyd gŵr ifanc 21 oed o'r enw William Henry Griffith, Bryn Cwil, Tan y Coed, Llanrug. Ond roedd yr angladd arbennig hwn yn nodi digwyddiad hanesyddol, nid yn unig yn ardal Llanrug, na hyd yn oed sir Gaernarfon, ond yng Nghymru gyfan. Os yw'r ffeithiau'n gywir, dyma'r tro cyntaf erioed yng Nghymru i angladd o'r math hwn gael ei gynnal.

Roedd W. H. Griffith yn aelod o'r Temlwyr Da (neu'r Temlyddion Da), mudiad a sefydlwyd yn yr ardaloedd hyn ychydig flynyddoedd ynghynt. Roedd y mudiad yn gysylltiedig a'r capeli, ac yn rhoi pwys mawr ar ddirwest. Cofier mai dyma'r cyfnod a arweiniodd at Ddeddf Cau'r Tafarnau ar y Sul rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yr enw ar Gymdeithas y Temlwyr Da yn ardal Llanrug oedd 'Cyfrinfa Glan Rhyddallt'.

Ffurfiodd aelodau Cyfrinfa Glan Rhyddallt yn orymdaith ger Ysgol Bryn Eryr. Roedd pob aelod yn ei urddwisg arbennig, ac yn gwisgo rosette du. Oddi yno, gorymdeithiwyd i Eglwys y Plwyf. Darllenwyd y gwasanaeth claddu yn yr eglwys gan y Ciwrdd, ac yna cariwyd y corff i lan y bedd. Yno roedd gweinidog Methodistiaid Calфинаidd y Capel Mawr, Llanrug — y Parch John Eiddion Jones — yn aros gyda'r Temlwyr Da. Cyn gollwng y corff i'r bedd, darllenodd wasanaeth claddu arall, sef gwasanaeth arbennig ar gyfer aelod o'r Temlwyr Da. Dyma sut y disgrifir yr amgylchiad gan ohebydd yr *Herald Gymraeg*:

'Dyma'r tro cyntaf hyd y gwyrddom i'r gwasanaeth claddu hwn gael ei ddarllen yng Nghymru, a dichon nad oes llawer o fannau heblaw Llanrug lle y cawsai gweinidog Ymneilltuol ei ddarllen wrth y bedd ym mynwent yr eglwys.'

Yn dilyn y gladdedigaeth, gorymdeithiodd y Temlwyr Da yn ôl — y tro hwn i Ysgol Glanmoelyn.

Byddai'n ddiddorol gwybod pam y dewiswyd claddu'r gŵr ifanc ym mynwent yr eglwys, a mynwent eisoes ym meddiant Capel Mawr bryd hynny. Efallai nad oedd yn

aelod gyda'r Methodistiaid. Diddorol hefyd fyddai cael gwybod faint o ymgynghori fu rhwng yr Awdurdodau Eglwysig a'r Parch J. Eiddion Jones ynglŷn â'r gwasanaeth claddu.

Diddorol nodi hefyd gymaint o effaith a gafodd mudiad y Temlwyr Da ar ddirwest yn yr ardal. Roedd Cymdeithas Cymedroldeb wedi bodoli yn Ninorwig a Llanrug ers canol yr 1830'au, ond roedd gwin alcoholig yn parhau i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaethau Cymun y capeli — hyd y 1870'au. Yna, daw diwedd ar alcohol yn y capel. Ar ddydd Sul, 22ain o Dachwedd, 1874, defnyddiwyd gwin anfeddwol yn y Capel Mawr, Llanrug am y tro cyntaf. Y Parch Daniel Rowlands, Bangor oedd yn gweinyddu.

Felly, dyna ddau ddigwyddiad hanesyddol yn ymwneud a dylanwad y Temlwyr Da yn ardal Llanrug.

Eisiau gwybodaeth am:

Ifan Efrai (Evan Jones?) o Lanberis, a oedd yn arweinydd / hyfforddwr y *Nant Peris String Band*. Er gwaethaf yr enw, mae'n debyg mai o Lanberis y deuai'r aelodau a'u hyfforddwr.

Anfonwch unrhyw wybodaeth am 'Chwilota' i'r Golygydd Erthyglau.

COFIO RIWTH JONES

O.N. — Gyda diolch am ymateb i'r erthygl 'Chwilota'. Ond beth am y cymeriad arall a enwir ynglŷn â'r iard lo yn Stabla? Os nad yw dawn sgwennu John E. Williams gennych, rhowch alwad ffôn i'r Golygydd Erthyglau.

RIWTH JONES

gan JOHN E. WILLIAMS

Dydw i ddim yn un o'r rhai mwya addas i ddweud pwt am Riwth Jones, Stabla gynt, er fy mod yn ei chofio yn cadw siop yn y Fron Oleu gyferbyn â ni yn y fan yma ar Allt Riwth — Siop Riwth chwadad ninna.

Serch hynny, gan fod ei wyres, Mrs Mary Davies, Llys-y-Gwynt, Penisa'rwaen a'i brodyr yn cyd-oesi hefo fi yn ysgol Tan-y-Coed o dan ddisgyblaeth Mr Jones, Y Gwyddfor, ac am fy mod hefyd wedi ei defnyddio fel cymeriad yn *Straeon Cyfar Main*, rwy'n teimlo fod gen i cystal trwydded â neb i sôn amdani, ac na fasa hi ddim mymryn dicach.

Dyma'r cyswllt sydd iddi yn y gyfrol pan oedd Twm Edwat a John El yn dŵad â'r fflôt un llorip honno heb ferlyn, o'r Ceunant ar noson dywyll, ac eisoes wedi rhedag y llorip drwy ffenast Siop Bont:

'Roedd Riwth Jones yn cadw siop yn ffenast mewn tŷ ar yr Allt yr adag honno, ac yr oedd Twm Edwat o'r farn y basa fo'n eitha peth tasa nhw'n troi i mewn am funud i gael spel ar y gadair, ac iddo fynta gael baco cnoi ar yr un pryd.

Roedd hi'n llawn cystal nad oeddau nhw ddim ar frys, achos yr oedd 'na bentwr o bobol yn digwydd bod yno yn chwilio am anghenion plaen y werin i fwrw'r Sul, ac yr oedd yna fynd garw ar baraffin, ac mi fuo raid i Riwth fynd i'r cefn unwaith neu ddwy i olchi ei dwylo cyn gallu rhoi sylw i Twm Edwat, a dyma fynta yn dechra deud hanas y fflôt, ac yno y buo nhw am gryn hanner awr, a Riwth yn gwaredu, ac yn dweud na welodd yna neb Cartar heb ei goes bren o'r blaen. Erbyn iddyn nhw fynd allan, roedd y fflôt wedi diflanu.'

Pan dynnais i sylw Mary at y golofn 'Chwilota' yn yr *Eco* y diwrnod o'r blaen, roedd hi'n dweud fod yr ychydig fanylion a oedd ynddi am Nain Riwth chwadad hitha, yn gywir, ac ychwanegodd rai ei hun at y byr nodiadau hyn.

Ar wahan i gadw siop, roedd Riwth hefyd yn cadw lojars yn y Fron Oleu meddai Mary, ond ymhen cyfnod symudodd i'r Stabla i fyw at ei mab mabwysiedig, William Edwin Jones, a adawyd yno erbyn hynny yn weddw hefo'i blant. Roedd Mary yn dweud fod ganddi gof



Riwth Jones yn Stabla yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd felly'n ddeg a phedair ugain mlwydd oed o leiaf pan dynnwyd y llun hwn.

rhedag i lawr yr Allt ar ôl y fan madael, a chanhwyllbran yn ei llaw. Cyn hyn roedd Riwth wedi bod yn trigo yn Nhaf Ffynnon gerllaw Siop Gron ym Mhenisa'rwaen, ac yr oedd hi'n ôl yr hanes yn chwaer i Grace Jones, Coed-y-Parc, Y Waen Winau.

Yn ddiweddarach symudodd y teulu i fyw i Fryn Tirion, Penisa'rwaen, lle bu Riwth Jones farw ar yr wythfed ar hugain o Hydref, mil naw pedwar pedwar, yn bymthag a phedwar ugain oed fel fy mam innau. Mae hi wedi ei chladdu ym Mhenisa'rwaen mewn bedd dinod. Doedd yr haint o gystadlu hefo cymdogion am 'eilunod gwael y llawr' ddim wedi lled-daenu i faes cerrig beddi yr adeg honno.

Dyma lun o Riwth Jones yn y Stabla, a fenthycwyd i mi gan Mary. Y fo ydy'r unig un sydd ganddi, ac o ganlyniad mae yn ei fawr drysori.

CARTREF
HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

YSGOL BRYNREFAIL
Cynhelir
NOSON GŴYL DDEWI
gyda'r disgyblion yn cyflwyno
EITEMAU AMRYWIOL

Nos Iau, Mawrth 7fed am 7.00pm
yn Neuadd yr Ysgol
Pris mynediad £1 yn cynnwys paned
a lluniaeth ysgafn
talu wrth y drws

ROYAL
VICTORIA
HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



Dyddiadur y Mis

MAWRTH 1991

1. Gwener. Dydd Gŵyl Ddewi.

Llanrug: Plaid Cymru, noson dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, 7.30. **Brynrefail:** Sefydliad y Merched, Cinio Gŵyl Ddewi.

2. Sadwrn. Yr Ardal: Eisteddfod Cylch yr Urdd dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail. **Bethel:** Noson Goffi.

4. Llun. Waunfawr: y Gymdeithas Lenyddol, noson yng nghwmni Guto Roberts (dyddiad newydd). **Deiniolen:** Sefydliad y Merched, ymweliad ag Oriel Eryri.

5. Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau, 7.00. **Penisarwaun:** Yr Urdd. **Llanrug:** y Gymdeithas Lenyddol Undebol, dathlu Gŵyl Ddewi.

7. Iau. Caeathro: Noson Goffi, Hospis yn y Cartref, 7.00.

8. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Gyrfa Chwist yn Ysgol Gwaun Gynfi, 7.30. **Yr Ardal:** Clwb Eryri, darlith gan Mr Emyr Price.

11. Llun. Waunfawr: y Gymdeithas Lenyddol, noson i gloi'r tymor.

12. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr, dathlu Gŵyl Ddewi. **Penisarwaun:** Yr Urdd.

13. Mercher. Bethel: Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr.

15. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

18. Llun. Yr Ardal: Cyfarfod Cyhoeddus yn yr Institiwt, Caernarfon, 7.30 — 'Sylw i Wynedd yn Ewrop'.

20. Mercher. Penisarwaun: Yr Urdd — ymweliad â Chanolfan Hamdden Dwyfor. **Waunfawr:** Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan, 7.30. Dyfodol yr Urdd.

22. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. **Bethel:** Swper Blynnyddol Clwb y Rhos yn y Stablau, Llanwnda.

25. Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.

29. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

Gofynnir i bob Cyngor Cymuned anfon cynrychiolaeth i **Gyfarfod Cyhoeddus pwysig** sydd i'w gynnal yn yr Institiwt, Caernarfon, ar nos Lun, 18 Mawrth, am 7.30. Rydym wedi gwahodd Aelod Seneddol Iwropeaidd Gogledd Cymru, Joe Wilson, i'n hannerch.

Bydd yn gyfle inni bwysu am sylw i Wynedd yn Iwrob, a gofalu fod y Gymuned Iwropeaidd yn edrych ar Gymru fel endid cenedlaethol, nid fel rhanbarth. Mae'n rhoi siawns inni hefyd i wasgu am fwy o arian o'r Gronfa Gymdeithasol Iwropeaidd ar gyfer yr ardal hon.

Nid oes raid i chwi fod yn gynrychiolydd swyddogol o Gylch Arfon o Gymdeithas Bro a Thref Cymru. **Mae hwn yn gyfarfod agored i bawb.**

rhan yn y fath gystadleuaeth.

Cwrs Ysgolion Uwchradd yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn

Ar bnawn Gwener, 25 Ionawr, cychwynodd criw o aelodau'r Urdd ym mlwyddyn 1 a 2 yr ysgol ar eu taith i Lanllyn. Mae adran yr Urdd yr ysgol yn trefnu bod yr aelodau'n cael cyfle i fynychu cyrsiau penwythnos yn y gwrsyll o dro i dro.

Roedd y criw o dros ddeg ar hugain yn edrych ymlaen yn eiddgar at weithgareddau'r penwythnos. Cawsant lawer o hwyl a phrofiadau bythgofiadwy yn nofio, hwylio, canwio, cerdded, dawnsio a chwarae gemau o bob math. Er gwaetha'r fflw oedd ar ei anterth yn ystod yr adeg yma fe ddaeth y mwyafrif o'r plant adref yn holliach bnawn Sul er eu bod yn flinedig iawn!

Newyddion o'r Adran Gerdd

Mynychodd Sara Wood gwrs Cerddorfa Siambr Gwynedd yng Ngholeg Glynllifon ar Ionawr y pumed a'r chwedde ar hugain.

Ddeuddydd yn ddiweddarach aeth rhai o ddisgyblion iau'r ysgol eto i Goleg Glynllifon ond y tro yma ar gwrs llinynnol ysgolion Gwynedd. Mwynhaodd y canlynol y cwrs a chawsant fudd mawr ohono: Sioned Wyn Jones, Lois Dafydd, Rhys Owain, Eleri Jones a Caitlin Wroe.

Tylluan

Y nos a ddaeth pawb yn cysgu heblaw

Heblaw amdanat ti


Mae'th lygaid craff creulon yn crefu am ysbail

Trwy'r nos casineb yn cronni, Sgrech, a lawr a thi a'th grafangau a chrogi'th brae,

Un creulon wyt ti, aderyn y nos.

Llŷr Sion (2S)

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS


1. Man gwyn man draw (8)
4. Stêm (4)
8. Mewn tafodiaith, gellir eu ffrio (3)
9. Offeryn (5)
10. Yng nghanol yr edau (3)
11. Dal ati i'r pen (2,5)
12. Lle tanlyd yn ôl pob sôn (5)
13. Yn benderfynol o gyrraedd 1 ar draws (4,3,1,3)
17. Unrhyw un (5)
18. Cadwch y werin yn eu lle (7)
20. Ffrind mewn Ffrangeg (3)
21. Ffon ddefnyddiol yn yr ardd (5)
22. Un mochyn, glo neu waelod yr ardd 'stalwm (3)
23. I waelod y môr (4)

24. Gwryw di-ddeall (5,3)

I LAWR

1. Nid dwywaith hyd yn oed
2. '— hoff gytûn' (5)
3. Lle aeth y milwyr i gyrchu Crist (2,3)
5. Beth oedd Adda? (3,1,3)
6. — o Fôn (6)
7. Dau enw am doriad croen ar ôl baglu (5,1,4)
9. Neb wedi meddwi (4,2,4)
14. '— Lowri i lawr yr allt' (7)
15. Nid Eco'r Wyddfa ond beth y mynydd? (6)
16. Dal yn ôl (6)
18. Trol ddeheuol (5)
19. Bws i'r lleuad (5)

ATEBION CHWEFROR



NEB YN DEILWNG!

Holli blew oedd peidio gwobrwyo'r mis diwethaf yn ôl un gŵyn a dderbyniwyd — dylid fod wedi derbyn 'arfer da' er mai 'arfer DDa' oedd yn gywir.

Prun bynnag am hynny! Does neb yn deilwng y mis hwn 'chwaith. 'Cadoedi' meddai'r mwyafrif am 4 i lawr, ac eraill wedi cynnig 'diddim' am 13 i lawr. Fel y gwelwch, 'daw oedi' a 'dirym' oedd yr atebion cywir.

Atebion y mis hwn i'r Golygydd Erthyglau erbyn 19 Mawrth.

FY NIDDORDEBAU I

SNWCER

Fy niddordeb pennaf i yw snwcer. Roedd gennyf fwrdd snwcer ond mae twll yn y defnydd gwyrd sydd ar y bwrdd felly ni allaf ei ddefnyddio.

Fy hoff chwaraewr yw Stephen Hendry. Ar y funud fo yw'r chwaraewr gorau yn y byd. Mi ddaeth yn chwaraewr gorau'r byd drwy guro Steve Davis yn 1989. Steve Davis oedd chwaraewr gorau yn y byd cyn i Stephen Hendry ei guro. Drwy guro Steve Davis daeth Stephen Hendry nid yn unig yn chwaraewr gorau'r byd ond yr un ieuengaf i fod felly erioed. Ym mis Ionawr 1991 collodd Stephen Hendry gêm yn erbyn Jimmy White. Yn 1989 ymddeolodd Alex Higgins o'r gêm.

Mae gan bob chwaraewr wahanol

fath o giw. Maent yn cael eu gwneud yn y ffordd sydd yn gweddu i'r chwaraewr orau. Maent yn newid trymdra y ciw ac yn newid y siap yn lle ei fod yn grwn o'i gwmpas i gyd. Hefyd maent yn newid y math o nib sydd ar dop y ciw. Mae'r rhan fwyaf o chwaraewr yn defnyddio nib tenau. Peth arall sydd yn ddefnyddiol pan rydach yn chwarae y gêm yw y ciw sydd ag X ar ei flaen. Mae hwn yn eich helpu i gymryd siot sydd yn bell o ochr y bwrdd. Peth arall sydd yn ddefnyddiol yw yr estyniad sydd yn cael ei glipio yn sownd i ben y ciw. Mae hwn yn eich helpu i gymryd siot o un pen i'r bwrdd i'r llall.

Mae snwcer yn gêm dda i'w chwarae ac mae llawer o fy ffrindiau ysgol yn ei mwynhau hefyd.

Eurig Druce (1D)



Cystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc y Flwyddyn

Yn ystod mis Ionawr dewiswyd pedwar o ddisgyblion y chwedde dosbarth i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth defnyddwyr ifanc y flwyddyn. Aelodau'r tîm oedd: Bryn Jones, Euron Thomas, Stacy Turner, Lyn Davies a Trystan Thomas yn eilydd. Gwnaeth y tîm yn rhagorol i guro timau ysgolion eraill o Wynedd er mwyn mynd ymlaen i'r rownd derfynol yn cynrychioli'r sir. Yng Nghaerdydd y cynhaliwyd rhan olaf y gystadleuaeth, ar ddydd Mawrth, 12 Chwefror. 'Roedd rhaid i'r tîm baratoi ar gyfer cwestiynau ar y pynciau canlynol: bwyd a diod; cyfraith y defnyddwyr; teithio/iechyd; diogelwch y defnyddwyr; arian/credyd y defnyddwyr; gwybodaeth gyffredinol.

Ar ôl teithio i lawr i Gaerdydd gyda'u hathrawes Mrs Carys Evans yr oedd y tîm i gystadlu yn erbyn saith o dimau eraill a oedd yn cynrychioli gweddill siored Cymru. Bu cystadlu brwd rhwng yr wyth tîm ac fe ddaeth tîm Brynrefail yn bumed clodwiw. Ar ôl y gwaith caled cawsant dreulio noson mewn gwesty yng Nghaerdydd am ddim, a phawb wedi mwynhau'r profiad o gymryd

CHWARAEON

SGIO

DIM NAWDD I'R CYMRU

Michael Wroe, o'r Waunfawr, cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail yw'r Cymro cyntaf erioed i gael ei le yng ngharfan iau sgiwyr gwledydd Prydain. Bydd yn cystadlu ym mhencampwriaethau y byd yn yr Almaen ar 12 Mawrth, ac y mae Aled Roberts, aelod o'r tîm sy'n cynhyrchu'r rhaglen deledu 'Y Maes Chwarae' wedi datgan diddordeb mewn mynd a thîm drosodd i'w ffilmio'n cystadlu.

Y mae Michael, ynghyd â dau Gymro arall, sef David Berry o Bontypwl a Roger Hughes o Fetws-y-coed yn profi tymor hynod o lwyddiannus hyd yma, ond yn anffodus yn methu a denu'r cymorth ariannol sydd mor angenrheidiol i'r rhai sy'n bwriadu mynd ymlaen. Er enghraifft, mae'r tri a enwyd, sy'n aelodau o garfan iau sgio Cymru yn talu £140 yr wythnos am gael aros mewn gwesty ym Montgenev — mae cwmni teithio Quest Travel yn talu pob dimau i dîm y Saeson sy'n aros yn yr un gwesty. Gan mai Saeson yw ei rieni byddai'r hawl gan Michael i gystadlu dros Loegr, a thrwy hynny ddenu'r un nawdd, ond mae'n mynnu cael cynrychioli Cymru. Y mae'r enwog Chris Brashier yr athletwr Olympaidd, a helpodd Roger Bannister i redeg y filltir gyntaf dan 4 munud, yn gwneud ei orau i sicrhau yr un math o gymorth i'r Cymry ag sydd ar gael i'r Saeson.

Y mae rhai busnesai ac unigolion o'r ardal eisoes wedi cyfranu at ei gostau, ac y mae'n ddiolchgar iawn am bob dimau a ddaw i law. Ei uchelgais yw cynrychioli ei wlad yng ngemau Olympaidd y gaeaf yn 1996 ac i fod y sgiwr gorau ym Mhrydain. Y mae eisoes wedi ei enwi y sgiwr iau gorau, felly ymlaen fo'r nôd.



RHY HAWDD O'R HANNER

Mae'n rhaid dweud fod yr ymateb i'r cwis misol yn creu syndod i mi ar adegau. Rhyw sylw llafar fydda i'n ei gael pob hyn a hyn, a hynny weithiau mewn mannau hollol annisgwyl. Mewn archfarchnad ym Mangor, er enghraifft y dysgais gan un brodor o Ddeiniolen fod deg cwestiwn y mis diwetha'n llawer rhy hawdd, ond mewn llythyr a anfonodd ataf yr honna gŵr o Gaergybi na redodd neb erioed bron i dair mil o filltiroedd! Wel, mae hwnnw'n anghywir, ac fe geisias feddwl ar rai anoddach i'r cyfaill o Ddeiniolen y mis yma.

Bruce Tulloh oedd ateb yr ail gwestiwn, sef pwy redodd o Los Angeles i Efrog Newydd, pellter o 2,876 milltir mewn 65 niwrnod. Ateb y cwestiwn cyntaf oedd **Yr India**, y pencampwyr hoci i ddynion Olympaidd rhwng 1928 a 1960. **Bob Paisley, Lerpwl**, wrth gws enillodd y bencampwriaeth chwe gwaith gyda'r un clwb, a **Phrydain** yw'r unig wlad sydd wedi cystadlu holl gemau Olympaidd, haf a gaeaf. **Sunil Gavaskar** oedd y batiwr cyntaf i sgorio 10,000 o rediadau mewn gemau prawf, a **Bournemouth** sy'n chwarae ar gae pêl-droed Dean Court. Y **râs rhwyfo rhwng prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt** sy'n mynd heibio i Craven Steps a Doves, a **Leslie Compton (Arsenal)** oedd yn 38 oed pan gafodd ei gap cyntaf dros Loegr. **Jack Nicklaus** yw'r 'golden bear' ac fe ganiateir i chwi gario 14 o glybiau yn eich bag golff mewn cystadleuaeth.

REIT 'TA — TRIWCH Y RHAIN:

1. Unwaith yn unig yr enillodd yr enwog Gordon Richards y Derby — beth oedd enw ei geffyl?
2. Ym mha gêm y mae Skylet Andrew yn chwarae dros Loegr?
3. Pa dîm sy'n perfformio yn Stadium Dudley Wood?
4. Dros sawl clwyd mae merched yn neidio yn y râs 100m. dros y clwydi?
5. Pa bêldroediwr Americanaidd a elwir 'y rhewgell'?
6. Enwch y pedwar gôlgeidwad sydd wedi eu henwi 'The Football Writers' Footballer of the Year'.
7. Pwy oedd y golffwr a arweiniodd y tîm Prydeinig a enillodd y cwpan Ryder yn 1957?
8. Pwy oedd y llanc deunaw oed fu'r ieuengaf i ennill pencampwriaeth amatur snwcer y byd yn 1980?
9. Pa wlad Ewropeaidd sydd wedi gwahardd rasio ceir ers 1955?
10. Pwy yw'r cricedwr o Sais a sgoriodd ddwy ddycsen yn ei gêm brawf gyntaf yn erbyn Awstralia yn 1975?

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Bydd y tymor 'sgota brithyll yn cychwyn ar yr afonydd ar 3 Mawrth, ond bydd yn rhaid disgwyl tan yr 20fed i gael gwlychu lein yn y llynnoedd. Beth a ddaw yn y tymor newydd os gwn i, wedi inni gael y gaeaf oeraf ers pedair blynedd. Ar ôl y gaeaf cyffelyb hwnnw, gwelsom y nifer fwyaf o eogiaid yn dod i'n dyfroedd ers ugain mlynedd. Gobeithio y bydd i hanes ail adrodd ei hun!

Yn dilyn y tymor diwethaf, bu llawer o drafod ynglŷn â'r diriwiad yn nifer y Sewin a ddaliwyd. Does neb yn gwybod pam ond gwyddom fod natur yn wyrthiol, ond iddi gael y mymryn lleiaf o heddwch, fe atgyweirir ei hun. Gobeithio yn wir mai dyma fydd ei hanes gyda'r Sewin. I'w helpu rydym yn gobeithio y bydd y ddeorfa yng Nghrawia yn gallu ychwanegu'n sylweddol at nifer y pysgod mudol.

Mae ardalywyr Llanrug mae'n siŵr wedi gweld adeiladau y fenter yma yn dod yn ei blaen, a gobeithir y bydd aelodau o Gwmni Benson and Hedges yma i agor y safle yn swyddogol tuag at ddiwedd Ebrill, mae'r cwmni yma wedi bod yn hael iawn gyda'u rhodd ariannol i'r Gymdeithas. Peidiwn ychwaith ag anghofio busnesau lleol a'r unigolion a fu mor barod gyda'u nwyddau a'u harian, yn ogystal â'r aelodau a fu mor garedig â rhoi'r peth mwyaf gwerthfawr, sef eu llafur. Bydd cyfle i ddiolch yn ffurfiol i'r rhain ar ôl yr agoriad swyddogol.

Gwelais yn un o golofnau y cylchgrawn *Trout and Salmon* fod y fferm bysgod ym Mhontllyfni bellach ar werth. Gobeithio, os oes prynwyr am fod, y byddant yn deall eu hobyliadau tuag at yr afon Llyfni. Mae'n rhaid gwneud yn siŵr na ddigwydd byth eto weld yr afon yn cael ei thynnu i gyd i safnau sychedig y fferm yma. Mae pwyllgor y Gymdeithas yn ymwybodol o'r pryder mawr sydd yn yr ardal am hyn, ac i'r perwyl yma mae'r ffeithiau i gyd wedi eu trosglwyddo i'r A.C.A. Fe elwir cyngor cyfreithiol yn fuan. Cawn weld pa ffordd i fynd wedyn.

Gwelir llawer o newid ar Lyn Dywarchen y tymor yma, gyda lefel uchel o ail-stocio y cyflenwad bysgod yn dod yn fisol o'n deorfa ein hunain. Hefyd mae pedwar cwch wedi eu prynu. Mae diddordeb mawr yn y rhain, a bydd galw mawr am danynt — y cyntaf i'r felin gaiff falu!

Yn ystod y misoedd diwethaf gwelwyd y Bwrdd Dŵr yn brysur yn changu gwaith carthffosaeth Llanrug. Roedd y gwaith yma'n wir angen ei wneud, a chawn weld gwelliant yn ansawdd y dŵr yng Nghrawia o hyn ymlaen.

Mae'n braf sylweddoli o'r diwedd fod y ddau safle carthffosaeth ar rannau uchaf yr afon, sef Deiniolen a Llanrug, yn awr wedi eu gweddnewid. Mae dau arall i'w gwneud, sef Caethro a Chaernarfon. Wedyn bydd y Seiont unwaith eto yn un o afonydd gorau a glanaf y wlad. Mae rhai yn dweud fy mod yn breuddwydio gormod — cawn weld yn te!

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

TWRNAMENT PÊLRWYD GWYNEDD DAN 16

Bu nifer o enethod dosbarthiadau 3 a 4 yn cynrychioli'r ysol yn nhwrnament Pêlrwyd Gwynedd yn ddiweddar, sef Catherine Williams, Llinos Roberts, Sonia Rochelle, Nia Griffiths, Donna Evans, Sandra Nisbet, Nia Jones, Caroline Jones, Janice Thornton a Nicola Houston. 'Roedd yn brofiad gwerthfawr iddynt, ac fe gytunodd pob un eu bod wedi dysgu llawer iawn drwy wyllo timau mwy profiadol. Bu nifer o enethod yr ysgol hefyd ar gwsr pêlrwyd a drefnwyd gan Gynor Arfon yn ystod y mis. Dwy aelod o dîm Cymru oedd yr hyfforddwyr, a chafwyd budd mawr o'r profiad.

GEMAU YN ERBYN YSGOL DYFFRYN OGWEN

Pêl-droed, dan 13 oed: ennill 4-1. **Hoci**, dan 15 oed: ennill 1-0. **Pêlrwyd**, Bl. 4: ennill 6-4; Bl. 3: ennill 1-4; Bl. 2: ennill 16-2.

PÊL-DROED YSGOLION ARFON (dan 15 oed)

Roedd Raphael Ginsberg (Bethel), Gavin Allen (Deiniolen), Simon Murphy (Llanrug), Sion Hughes (Deiniolen) ac Andrew Jones (Deiniolen) yng ngharfan Arfon a aeth i chwarae yng Nghaerfyrddin ar 21 Chwefror yn erbyn tîm Ysgolion Dyfed. Mewn gwynt a glaw ac ar gae artiffisial fe wnaeth bechgyn Arfon yn hynod o dda i ddarparu yn gyfartal 2-2. Gavin Allen a Sion Hughes sgoriodd i dîm Arfon. Fe chwaraeir yr ail gymal ym Mhorthmadog ymhen pythefnos.

MI WELAIS DDYN O'R FRO YN EISTEDD AR BEN TO . . .

Pam? fe'ch clywaf yn gofyn, mae yna ddarlun o ddyn yn sefyll ar ben to ar dudalen ôl yr *Eco*. A beth mae o'n ei wneud yno beth bynnag, yn gafael yn dynn yn yr erial a'i draed wedi fferu rhwng rhengoedd ei ysgol do?

Yn bwysicach fyth, sut aeth o yno. Ym mhle mae'r ysgol a ddringodd i gyrraedd to y tŷ deulawr?

Mae'r atebion yn hawdd wrth gwsr o wybod mai Max, y dyn gosod erials a thrwsio teledu (weithiau!), un o bileri clwb pêl-droed Llanrug ydi o. Fe gafodd dros hanner awr, tra'n disgwyl i rhywun ddod i ail godi ei ysgol i addunedu iddo ei hun y byddai'n clymu'r ysgolion wrth eu gilydd y tro nesaf y bydd yn trwsio erial mewn corrwnt yn y Waunfawr.

